Equiventus

# Adolygiad o Ddeddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014

**ADRODDIAD CYHOEDDUS TERFYNOL**

Cyflwynwyd: 21 Gorffennaf 2017

## CYNNWYS


| | | | *Tudalen* |
|---|---|---|---|
| **1.** | **Crynodeb Gweithredol a Rhestr o Argymhellion** | | 4 |
| | 1.1 | Crynodeb gweithredol | 4 |
| | 1.2 | Rhestr o argymhellion | 5 |
| **2.** | **Yr Adolygiad** | | 7 |
| | 2.1 | Cwmpas yr adolygiad | 7 |
| | 2.2 | Methodoleg | 8 |
| | 2.3 | Ystyriaethau | 10 |
| **3.** | **Crynodeb o'r Ddeddf** | | 11 |
| **4.** | **Cefndir i Gyflwyno'r Ddeddf** | | 12 |
| **5.** | **Perthynas y Ddeddf â Deddfwriaeth Bresennol** | | 15 |
| **6.** | **Adolygu'r Ddeddf** | | 17 |
| | 6.1 | Mabwysiadu'r Ddeddf | 17 |
| | 6.2 | Nifer yr achosion a riportiwyd o bori anghyfreithlon, ceffylau'n crwydro a cheffylau'n cael eu gadael | 21 |
| | 6.3 | Nifer y ceffylau yr ymafaeliwyd ynddynt o dan y Ddeddf | 24 |
| | 6.4 | Adnabod ceffylau yr ymafaeliwyd ynddynt o dan y Ddeddf | 26 |
| | 6.5 | Cymharu'r deddfau yng Nghymru a Lloegr | 28 |
| | 6.6 | Gorfodi'r Ddeddf | 31 |
| **7.** | **Effaith y Ddeddf** | | 32 |
| | 7.1 | Ar rwymo ceffylau | 32 |
| | 7.2 | Ar geffylau'n crwydro i'r briffordd gyhoeddus | 33 |
| | 7.3 | Ar berchnogion tir, meddianwyr tir ac unigolion preifat | 34 |
| | 7.4 | Ar gymdeithasau cominwyr | 36 |
| | 7.5 | Ar y sectorau gwirfoddol ac elusennol | 39 |
| **8.** | **Llwybrau Gwaredu ar gyfer Ceffylau yr Ymafaeliwyd ynddynt** | | 40 |
| | 8.1 | Ailgartrefu trwy elusen | 41 |
| | 8.2 | Gwerthu ceffylau trwy farchnad neu arwerthiant cyhoeddus | 44 |
| | 8.3 | Difa ceffylau | 45 |
| | 8.4 | Ailgartrefu ceffylau'n uniongyrchol â'r cyhoedd | 46 |
| **9.** | **Y Costau sy'n cael eu Hysgwyddo** | | 48 |
| | 9.1 | Rhannu a dyrannu adnoddau | 48 |
| | 9.2 | Ymafael mewn Ceffylau | 49 |
| | 9.3 | Hwsmonaeth | 50 |
| | 9.4 | Ailgartrefu | 51 |
| | 9.5 | Nifer yr achosion gorfodi a arweiniodd at drosglwyddo costau i berchnogion | 52 |
| | 9.6 | Nifer yr achosion o berchnogion yn cwestiynu'r costau | 53 |
| **10.** | **Adolygu Amserlenni Penodol yn y Ddeddf** | | 54 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 10.1 | Codi hysbysiadau ymafael o fewn 24 awr i ymafael mewn ceffylau | 54 |
| | 10.2 | Hysbysiad ysgrifenedig cwnstabl yr heddlu o fewn 24 awr i ymafael mewn ceffyl | 55 |
| | 10.3 | Hysbysiad ysgrifenedig i'w roi i'r rhai sy'n honni bod yn berchennog, neu eu cynrychiolydd, o fewn 24 awr i gyflwyno hawliad | 56 |
| | 10.4 | Mae'n rhaid cadw ceffylau am gyfnod ymafael sylfaenol o 7 diwrnod | 57 |
| | 10.5 | Mae'n rhaid cyflwyno cwynion yn ymwneud â ffioedd i Weinidogion Cymru o fewn 7 diwrnod | 58 |
| | 10.6 | Amserlenni eraill yn ymwneud â'r Ddeddf | 59 |
| **11.** | **Ystyriaethau eraill yn ymwneud â chyflwyno'r Ddeddf** | | 60 |
| **12.** | **Adolygu'r Cynllun Gweithredu** | | 62 |
| **13.** | **Astudiaethau Achos** | | 64 |
| | 13.1 | Defnyddio'r Ddeddf yn llwyddiannus | 64 |
| | 13.2 | Achosion lle y gellid bod wedi defnyddio'r Ddeddf | 68 |
| | 13.3 | Achos lle y defnyddiwyd y Ddeddf, ond nad oedd yn llwyddiannus oherwydd y dull gweithredu | 70 |
| | 13.4 | Astudiaethau achos ategol | 71 |

# 1. CRYNODEB GWEITHREDOL A RHESTR O ARGYMHELLION

## 1.1 CRYNODEB GWEITHREDOL

Yn y tair blynedd ers cyflwyno Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014 ("y Ddeddf"), mae'r dystiolaeth yn dangos gostyngiad yn nifer yr achosion o geffylau yng Nghymru sy'n cael eu riportio neu eu symud yn y pen draw oherwydd pori anghyfreithlon, ceffylau'n crwydro, neu geffylau'n cael eu gadael.

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod y gostyngiad i'w briodoli i nifer o ffactorau allweddol, gan gynnwys y broses o gyflwyno'r Ddeddf yn gyflym, cynnydd yn nifer y rhaglenni addysg ar gyfer perchnogion ceffylau, ymwybyddiaeth gynyddol o'r broblem bosibl ymysg y cyhoedd, a rhagor o gydweithio rhwng yr holl randdeiliaid perthnasol i fynd i'r afael â phryderon.

Er bod y tair problem o bori anghyfreithlon, ceffylau'n crwydro a cheffylau'n cael eu gadael yn cael eu datrys drwy ddefnyddio'r un mecanweithiau sydd ar gael drwy'r Ddeddf, maent yn deillio o dri math o ymddygiad gwahanol yn aml. Yn 2013/14, mabwysiadodd llawer o awdurdodau lleol agwedd dim goddefgarwch er mwyn mynd i'r afael â sefyllfa a ddisgrifiwyd yn 'argyfwng ceffylau' gan y sector elusennol. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd y cyfryngau'n adrodd ar achosion o geffylau'n cael eu pori ar eiddo cyhoeddus fel ysgolion a mannau cymunedol. Mae'r adroddiad hwn wedi canfod bod nifer y ceffylau sy'n cael eu pori'n anghyfreithlon wedi gostwng yn sylweddol ers cyflwyno'r Ddeddf. Dangosir hyn gan y gostyngiad yn nifer y ceffylau yr ymafaeliwyd ynddynt o 30 y mis yn 2014 i 18 y mis yn 2016 ar gyfartaledd. Hefyd, roedd 83% yn llai o achosion wedi eu riportio i Heddlu De Cymru rhwng 2012 a 2016.

Mae angen sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn sgil llwyddiant y Ddeddf i fynd i'r afael â phori anghyfreithlon yn cael eu defnyddio yn awr i fynd i'r afael â cheffylau sy'n cael eu gadael yng Nghymru. Ers cyflwyno'r Ddeddf, mae'n amlwg bod cydweithio rhwng yr holl randdeiliaid perthnasol wedi bod yn bwysig iawn i leihau nifer yr achosion. Mae'r dull cydweithredol hwn wedi arwain at ddatblygu cynlluniau addysgol a phartneriaethau llwyddiannus, gan wella cydymffurfiaeth ymysg perchnogion ceffylau.

Oherwydd natur y gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghymru, nid oes modd nodi union gostau'r gwaith. Mae'r sector cyhoeddus a'r sector elusennol wedi cyfrannu i raddau gwahanol at ddatrys yr achosion a gofnodwyd, ac mae'n anodd mesur a phrisio amser staff gwirfoddol a staff sy'n derbyn tâl, a'r adnoddau a ddefnyddiwyd.

Er bod y broses o gyflwyno'r Ddeddf ledled Cymru wedi sicrhau cysondeb o ran y ddeddfwriaeth sydd ar gael, mae modd gwella'r sefyllfa o hyd. Mae'r adolygiad hwn yn cyflwyno argymhellion i fynd i'r afael â'r pryderon allweddol a nodwyd, gan gynnwys prosesau gwell o adnabod ceffylau

yr ymafaelir ynddynt o dan y Ddeddf, gwella atebolrwydd a riportio achosion, a diweddaru mecanweithiau er mwyn defnyddio’r Ddeddf yn fwy effeithiol ac effeithlon.

## 1.2 RHESTR O ARGYMHELLION

Mae'r argymhellion canlynol yn seiliedig ar gasgliadau'r adolygiad hwn:

- Mae angen sefydlu mecanwaith adrodd unedig, a sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd, mewn ymdrech i wella cywirdeb ac eglurder adrodd ar ddigwyddiadau. [6.2]
- Dylai awdurdodau lleol geisio sicrhau bod pob anifail yr ymafaelir ynddo o dan y Ddeddf yn cael ei adnabod yn barhaol. [6.4]
- Er y dylai perchnogion tir allu manteisio ar ddarpariaethau'r Ddeddf sydd â'r nod penodol o fynd i'r afael â phori anghyfreithlon, ceffylau'n crwydro a cheffylau'n cael eu gadael, dylai'r ymgysylltiad hwn gael ei reoli drwy'r awdurdod lleol. [6.5]
- Os oes achos o geffylau'n cael eu gadael ar dir comin wedi'i nodi, dylid rhoi mesurau ar waith i ddod o hyd i ateb cynaliadwy drwy gydweithio. [7.4]
- Mae angen cyhoeddi canllawiau sy'n argymell y dylai ceffylau gael eu hailgartrefu drwy aelodau'r Cyngor Lles Ceffylau Cenedlaethol (NEWC) yn unig. [8.1]
- Dylid annog awdurdodau lleol i ailgartrefu ceffylau yr ymafaeliwyd ynddynt drwy'r sector elusennol ac nid yn uniongyrchol i'r cyhoedd. [8.4]
- O safbwynt amserlenni a nodir yn y Ddeddf, mae'r argymhellion canlynol yn cael eu gwneud:
    - Dylid dileu'r amserlen ar gyfer codi hysbysiadau ymafael, a'i disodli â gofyniad i godi hysbysiadau ymafael adeg ymafael mewn ceffylau. [10.1]
    - Dylid cadw'r angen i hysbysu swyddog yr heddlu o fewn 24 awr i ymafael mewn ceffylau. [10.2]
    - Dylid cynyddu'r gofyniad i ddarparu hysbysiad ysgrifenedig o fewn 24 awr, er mwyn darparu ar gyfer ystyriaethau clerigol safonol. [10.3]
    - Dylai'r cyfnod ymafael sylfaenol o dan y Ddeddf, cyn gwaredu unrhyw geffyl, aros yn 7 diwrnod. [10.4]
- Mae angen diweddaru Adran 7 (7) o'r Ddeddf fel bod modd dychwelyd ceffyl i berchennog os yw Gweinidogion Cymru wedi'u hysbysu am anghydfod, ar yr amod bod y swm sy'n ddyledus yn cael ei dalu cyn rhyddhau'r ceffyl. [10.5]

- Mae angen sefydlu amserlen o 90 diwrnod ar y mwyaf ar gyfer cyflwyno ac ystyried unrhyw geisiadau am berchnogaeth ddilys. [10.6]

- Mae angen sefydlu system rheoli digwyddiadau effeithiol er mwyn sicrhau cysondeb a chydymffurfiaeth ymysg pawb sy'n defnyddio'r Ddeddf. [11]

- Dylid adolygu'r Cynllun Gweithredu, gan arfarnu amcanion a nodwyd o'r blaen er mwyn ystyried eu perthnasedd yn yr amgylchedd presennol. Os penderfynir bod camau gweithredu yn ymarferol o hyd, dylid sefydlu amserlenni wedi'u diweddaru ar gyfer eu cyflawni. [12]

# 2. YR ADOLYGIAD

## 2.1 CWMPAS YR ADOLYGIAD

Daeth Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014 ("y Ddeddf") i rym ar 27 Ionawr 2014, gydag ymrwymiad i adolygu'r Ddeddf o fewn 3 blynedd i'w mabwysiadu.

Cwmpas yr adolygiad hwn yw gwerthuso effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y Ddeddf, ac ystyried unrhyw ddiweddariadau ac argymhellion gan randdeiliaid.

Er bod pori anghyfreithlon, ceffylau'n crwydro a cheffylau'n cael eu gadael yn cael eu cysylltu'n agos â phryderon lles yn aml, dylid nodi bod pryderon lles y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn, gan fod darpariaeth o'r fath wedi'i chynnwys yn Neddf Lles Anifeiliaid 2006.

Diben yr adolygiad yw gwerthuso maint y broblem cyn cyflwyno'r Ddeddf, a sut mae cyflwyno'r Ddeddf wedi dylanwadu ar y sefyllfa. Hefyd, cynhelir gwerthusiad pellach o sut mae'r Ddeddf wedi'i chyflwyno, a'r costau sy'n gysylltiedig â'r broses o'i chyflwyno.

Mae'r adolygiad yn nodi pa fecanweithiau o'r Ddeddf sy'n cael eu defnyddio'n effeithlon, ac a oes modd addasu unrhyw feysydd o'r Ddeddf er mwyn gwella defnydd ac effeithiolrwydd y mecanweithiau.

Mae'r ddogfen hon wedi'i strwythuro er mwyn sicrhau mynediad cyhoeddus llawn i'r adolygiad. Felly, mae'n cynnwys gwybodaeth gefndir am y problemau a oedd yn bodoli cyn cyflwyno'r Ddeddf, a sut mae'r problemau hynny wedi'u datrys drwy ddulliau gwahanol a thrwy ddefnyddio'r Ddeddf ei hun.

## 2.2 METHODOLEG

Cynhaliwyd yr adolygiad hwn rhwng 1 Chwefror 2017 a 30 Ebrill 2017.

Cwblhawyd cyfnod cychwynnol o ymchwil gefndir er mwyn coladu ac adolygu'r holl ddeddfwriaeth a dogfennau ymgynghori perthnasol, llunio manylion cyswllt rhanddeiliaid perthnasol, ac adolygu gwybodaeth am achosion a phroblemau perthnasol sydd eisoes wedi'u codi yn ymwneud â'r Ddeddf.

Sefydlwyd rhaglen gyfathrebu strwythuredig er mwyn cwblhau'r adolygiad yn unol â'r amserlen berthnasol. Roedd y rhaglen yn cynnwys nifer o gyfarfodydd ag unigolion, grwpiau a thros y ffôn, a chyfweliadau gyda rhanddeiliaid.

***Rhanddeiliaid:***

Rhannwyd rhanddeiliaid yn sectorau gwahanol er mwyn gwerthuso eu hymatebion unigol a'r farn gyffredinol yn y grwpiau hyn, lle bo hynny'n briodol.
Dyma'r grwpiau rhanddeiliaid:

- Y ddau ar hugain o awdurdodau lleol yng Nghymru
- Yr heddlu a'r gwasanaeth tân ac achub
- Sefydliadau elusennol a gwirfoddol
- Undebau amaeth, cymdeithasau cominwyr a pherchnogion tir
- Sefydliadau milfeddygol
- Defra a Llywodraeth Cymru
- Grwpiau cymunedol

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r awdurdodau lleol ddewis cynrychiolydd i gysylltu ag Equiventus ynglŷn â'r adolygiad. Roedd yr unigolion a enwebwyd yn dod o'r adrannau Safonau Masnach neu Iechyd Anifeiliaid perthnasol.

Cafodd rhanddeiliaid eraill eu dewis ar sail y ffactorau canlynol:

a) Perthnasedd y Ddeddf i'w gwaith a'u gweithrediadau.
b) Cyfraniad at yr ymgynghoriad gwreiddiol cyn cyflwyno'r Ddeddf.
c) Perthynas â rhanddeiliaid pwysig eraill, e.e. elusennau sy'n ailgartrefu ceffylau yr ymafaeliwyd ynddynt gan awdurdodau lleol.
d) Sefydliadau a grwpiau y gall y Ddeddf gael effaith arwyddocaol ar eu gweithgareddau.
e) Unigolion neu grwpiau y credir bod ganddynt ddiddordeb penodol yn effaith y Ddeddf, naill ai yn dilyn argymhelliad gan randdeiliaid eraill, neu o ganlyniad i ymchwil gefndir.

Dewiswyd sefydliadau o'r sector elusennol a'r sector gwirfoddol er mwyn sicrhau croestoriad a chynrychiolaeth dda o warchodfeydd bach a sefydliadau cenedlaethol wedi'u hen sefydlu.

### *Ceisiadau am ddata:*

Gofynnwyd i awdurdodau lleol sydd wedi defnyddio'r Ddeddf ddarparu copi o'r gofrestr a ddefnyddiwyd i gofnodi achosion yr ymdriniwyd â nhw o dan y ddeddfwriaeth hon. Cyflwynwyd cyfres o gwestiynau i bob un o'r awdurdodau lleol i nodi'r protocolau a ddefnyddiwyd a'r gweithgareddau a gwblhawyd yn ymwneud â phori anghyfreithlon, ceffylau'n crwydro a cheffylau'n cael eu gadael, cyn y Ddeddf ac ar ôl ei chyflwyno. Hefyd, casglwyd data perthnasol yn ymwneud â chostau os oedd ar gael.

Casglwyd data gan randdeiliaid eraill er mwyn ategu'r wybodaeth a gasglwyd gan awdurdodau lleol a llywio unrhyw gasgliadau'r adolygiad. Mewn rhai amgylchiadau, oherwydd polisïau a gweithdrefnau mewnol, roedd angen cyflwyno ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth er mwyn dod o hyd i ystadegau'n ymwneud â galwadau ffôn a chamau gweithredu mewn ymateb i bori anghyfreithlon, ceffylau'n crwydro a cheffylau'n cael eu gadael.

Cafodd unrhyw wybodaeth a data sensitif a ddaeth i law eu trin yn ofalus, a defnyddiwyd y wybodaeth yn briodol yn yr adolygiad hwn, gan ystyried y cyfyngiadau ar unrhyw wybodaeth o'r fath. Cafodd rhai adrannau o'r adolygiad hwn eu trosglwyddo'n ôl i'r rhanddeiliad perthnasol i gael eu caniatâd i ddefnyddio unrhyw ddata/gwybodaeth sensitif cyn cyhoeddi'r adroddiad.

### *Dadansoddi ac adrodd ar ddata:*

Ar ôl cam casglu data a chynnal cyfweliadau'r adolygiad, casglwyd a gwerthuswyd yr holl ddata a thystiolaeth, a chyflwynwyd y casgliadau a'r argymhellion terfynol.

### *Y cyfnod a adolygwyd:*

At ddibenion yr adolygiad hwn, lle mae dadansoddiad wedi'i gwblhau i nodi ffigurau blynyddol, mae'r cyfnodau a ddefnyddiwyd yn dechrau ar 27 Ionawr ac yn gorffen ar 26 Ionawr yn unol â phen-blwydd cyflwyno'r Ddeddf.

## 2.3 YSTYRIAETHAU

***Ystyried lles wrth adolygu'r Ddeddf hon:***

Er bod lles yn cael ei gysylltu'n agos â cheffylau sy'n cael eu gadael neu â phori ceffylau'n anghyfreithlon, mae mecanweithiau'n bodoli mewn deddfwriaeth arall, sef Deddf Lles Anifeiliaid 2006, i gynorthwyo gyda'r sefyllfaoedd hyn. Mae'r adolygiad hwn yn ymwneud â Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014 a'r broses o'i chyflwyno, ac er y gall lles fod yn berthnasol i rai o'r achosion sy'n cael eu trafod, nid lles yw prif ffocws yr adolygiad hwn.

***Ystyried dadansoddiad ystadegol:***

Yn ystod yr adolygiad hwn, gofynnwyd i'r holl randdeiliaid am ystadegau allweddol a manylion ariannol yn ymwneud â'r sefyllfa gyffredinol ac achosion penodol. Mae nifer o ystyriaethau allweddol yn berthnasol i'r data a gasglwyd yn llwyddiannus.

- Oherwydd natur anffurfiol gwaith casglu data sefydliadau gwahanol, mewn llawer o achosion mae'n anodd cymharu'r ystadegau a gasglwyd. Mae'r ffaith hon wedi'i hamlygu gan gofnodion heddluoedd Cymru. Yn yr enghraifft hon, nid oes unrhyw fethodoleg benodol wedi'i defnyddio gan luoedd yr heddlu i gofnodi pori anghyfreithlon, ceffylau'n crwydro neu geffylau'n cael eu gadael, neu nifer y ceffylau perthnasol. Mae'r ffigurau sydd ar gael wedi'u canfod drwy chwilio am bob cofnod sy'n cynnwys geiriau allweddol megis 'ceffyl' neu 'ferlyn' yn systemau data lluoedd yr heddlu. Mewn achosion lle daeth un cofnod i'r amlwg, noder y gall y cofnod hwn gyfeirio at fwy nag un ceffyl, ac yn yr un modd mae'n bosibl y bydd mwy nag un cofnod yn berthnasol i bob achos os oes mwy nag un unigolyn wedi rhoi gwybod am y digwyddiad.

- O safbwynt cofnodion ariannol yn ymwneud ag achosion penodol, nid yw'r sector elusennol na'r sector gwirfoddol yn gallu darparu gwybodaeth am gostau penodol pob achos, rhag ofn y bydd hynny'n cael effaith wael ar y cymorth a'r rhoddion a dderbyniant gan y cyhoedd.

***Rhagdybiaethau a wnaed wrth ddadansoddi data:***

Er bod ymdrechion wedi'u gwneud i gasglu setiau data cyfwerth a chyflawn, roedd angen gwneud rhai rhagdybiaethau wrth gategoreiddio data gan fod fformat a nifer y cofnodion sy'n cael eu cadw gan randdeiliaid yn amrywio. Mae'r manylion perthnasol wedi'u nodi yn y troednodiadau.

# 3. CRYNODEB O'R DDEDDF

Yn sgil cyflwyno Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014 ("y Ddeddf"), rhoddwyd pwerau ychwanegol i awdurdodau lleol er mwyn helpu i fynd i'r afael â phori anghyfreithlon, ceffylau'n crwydro a cheffylau'n cael eu gadael.

Er bod pwerau tebyg ar gael i awdurdodau lleol drwy Ddeddf Anifeiliaid 1971, roedd y Ddeddf hon wedi cyfyngu ar ddulliau gwaredu ym marchnadoedd neu arwerthiannau cyhoeddus. Y cyfnod ymafael a bennir gan Ddeddf Anifeiliaid 1971 yw isafswm o 14 diwrnod.

Mae'r Ddeddf yn pennu cyfnod ymafael statudol sylfaenol o 7 diwrnod, ac yn dileu'r cyfyngiad o waredu drwy arwerthiannau a marchnadoedd cyhoeddus. Mae'r awdurdod lleol yn gallu defnyddio unrhyw ddull sydd ar gael i waredu ceffyl o dan y Ddeddf, gan gynnwys ewthanasia.

Un o amcanion allweddol y Ddeddf oedd lleihau'r baich ariannol ar awdurdodau lleol wrth fynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig â phori ceffylau'n anghyfreithlon, ceffylau'n crwydro a cheffylau'n cael eu gadael.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys mesurau rhagnodol sy'n nodi amserlenni statudol ar gyfer rhoi camau allweddol ar waith. Mae'r camau'n cynnwys mesurau fel gosod hysbysiadau ar safleoedd lle'r ymafaelir mewn ceffylau, a rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r rhai sy'n dod ymlaen fel perchnogion posibl.

Un o amcanion y Ddeddf oedd cynnig yr un pwerau i bob awdurdod lleol yng Nghymru a, thrwy wneud hynny, disodli'r pwerau presennol sydd ar gael i nifer dethol o awdurdodau lleol drwy eu deddfwriaeth leol eu hunain. Un enghraifft o ddeddf leol oedd Deddf Cyngor Dinas Caerdydd 1984, a oedd yn cynnwys darpariaeth i waredu ceffylau o dir lle nad oedd caniatâd wedi'i roi i bori ceffylau.

Bwriad y Ddeddf oedd bod yn adnodd ychwanegol i awdurdodau lleol, gan atgyfnerthu ac ategu pwerau a roddwyd o dan ddeddfau presennol yn ymwneud â cheffylau ac anifeiliaid. Roedd y deddfau hyn yn cynnwys Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009, Deddf Anifeiliaid 1971 a Deddf Lles Anifeiliaid 2006.


# 4. CEFNDIR I GYFLWYNO'R DDEDDF

Mae achosion o bori anghyfreithlon, ceffylau'n crwydro a cheffylau'n cael eu gadael yn y blynyddoedd cyn cyflwyno'r Ddeddf wedi'u cofnodi'n dda gan sefydliadau Lles, ac mae nifer o achosion wedi cael sylw helaeth yn y wasg.

Mae erthygl [1] a ysgrifennwyd yn 2013 yn amlygu'r pryderon a fynegwyd gan yr RSPCA yn ymwneud â thua 7,000 o geffylau sy'n pori'n anghyfreithlon neu y credir eu bod mewn perygl ledled Cymru a Lloegr.

Derbyniodd Gwarchodfa Ceffylau Redwings 161 o adroddiadau'n ymwneud â cheffylau'n cael eu gadael yn 2009, ac roedd y ffigur hwn wedi codi i 806 yn 2013.

Ym mis Mai 2013, cyflwynodd BBC Wales gais Rhyddid Gwybodaeth i'r 22 awdurdod lleol yn holi am nifer y digwyddiadau yn ymwneud â phori ceffylau'n anghyfreithlon, ceffylau'n crwydro a cheffylau'n cael eu gadael. Arweiniodd y cais Rhyddid Gwybodaeth hwn a'r erthygl a'i dilynodd[2] at yr ystadegau canlynol, sy'n cael eu dangos yn Ffigur I isod:




Number of incidents – Nifer yr achosion

**Ffigur I.** Nifer yr achosion o bori ceffylau'n anghyfreithlon, ceffylau'n crwydro a cheffylau'n cael eu gadael[3] yr ymdriniwyd â nhw gan awdurdodau lleol yng Nghymru yn 2011 a 2012

Diddymodd y Ddeddf Adran 29 o Ddeddf Cyngor Dinas Caerdydd 1984, a chyfeiriadau at ymafael mewn ceffylau yn Adran 15(8) o Ddeddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987 ac Adran 35(7) o Ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987.

[1] Yr RSPCA yn galw am ddeddfau cryfach yn ymwneud â pherchen ar anifeiliaid ar ôl i 7000 o geffylau gael eu gadael
http://www.dailystar.co.uk/news/latest-news/329290/RSPCA-calls-for-tougher-animal-owning-laws-after-7000-horses-abandoned
[2] Cwynion am geffylau sy'n cael eu gadael yn cynyddu pedair gwaith mewn rhannau o Gymru
http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-south-east-wales-22604298
[3] Mae'n rhaid ystyried cywirdeb y ffigurau hyn. Maent wedi'u cynnwys yma er mwyn dangos y tuedd cenedlaethol yn unig. Nid yw'r erthygl yn nodi faint o geffylau a oedd yn gysylltiedig â phob achos, neu a oes achosion lluosog yn ymwneud â'r un pryder.

Roedd Deddf Gorllewin Morgannwg 1987 ar gael i'r awdurdodau lleol canlynol:

- Dinas a Sir Abertawe
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot


Roedd Deddf Morgannwg Ganol 1987 ar gael i ardaloedd penodol o'r awdurdodau lleol canlynol:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bro Morgannwg

Ar ôl ad-drefnu'r rhanbarthau gweinyddol, roedd rhai awdurdodau lleol ond yn gallu defnyddio'r deddfau lleol hyn mewn ardaloedd penodol o'r sir.

Oherwydd cysondeb a methodoleg cofnodi achosion o ymafael mewn ceffylau cyn cyflwyno'r Ddeddf, nid oes modd cofnodi'n gywir nifer y ceffylau yr ymafaeliwyd ynddynt ledled Cymru gyfan.

Yn ninas Caerdydd, roedd yr awdurdod lleol yn gallu defnyddio Deddf Cyngor Dinas Caerdydd 1984 fel y ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer ymafael mewn ceffylau a oedd yn pori'n anghyfreithlon, yn crwydro neu a oedd wedi'u gadael. Mae nifer y ceffylau yr ymafaeliwyd ynddynt o dan y Ddeddf hon rhwng mis Mawrth 2012 a mis Ionawr 2014 i'w weld yn Ffigur II.




**Ffigur II.** Cyfradd ymafael fisol o dan Ddeddf Cyngor Dinas Caerdydd 1984 gan Gyngor Dinas Caerdydd

Number of horses seized – Nifer y ceffylau yr ymafaeliwyd ynddynt

Maw-12, Ebr-12, Mai-12, Meh-12, Gorff-12, Awst-12, Medi-12, Hyd-12, Tach-12, Rhag-12, Ion-13, Chwe-13, Maw-13, Ebr-13, Mai-13, Meh-13, Awst-13, Medi-13, Hyd-13, Tach-13, Rhag-13, Ion-14

Yn ôl y sector elusennol, roedd y cynnydd enfawr yn nifer y ceffylau'n cael eu gadael i'w briodoli'n rhannol i'r dirywiad economaidd yn 2012, pan gredid bod nifer y ceffylau a gafodd eu gadael wedi cyrraedd penllanw.

Roedd amseriad y dirywiad economaidd yn cyd-fynd â'r digwyddiadau'n ymwneud â chig ceffyl yn 2013. O ganlyniad, diweddarwyd Rheoliadau'r CE yn 2015, gan arwain at gynnydd yn nifer yr archwiliadau ar geffylau sy'n mynd i mewn i'r gadwyn fwyd.

Mewn ymdrech a gafodd lawer o sylw i leihau'r perygl i'r gadwyn fwyd, cyflwynodd y ddeddfwriaeth Ewropeaidd ddyddiau cau llym ar gyfer cofrestru ceffylau, gan gynnwys gwahardd yn barhaol unrhyw geffyl a gofrestrwyd y tu allan i'w flwyddyn geni, neu dros 6 mis ar ôl ei eni, rhag mynd i mewn i'r gadwyn fwyd ddynol.

Felly, mae'r gofyniad hwn i wahardd yn barhaol o'r gadwyn fwyd unrhyw geffyl a gofrestrwyd yn hwyr yn berthnasol yn awtomatig i'r rhan fwyaf o geffylau sy'n cael eu pori'n anghyfreithlon a'u gadael. Mewn achosion lle mae ebolion yn cael eu hachub, mae canllaw ychwanegol a gyhoeddwyd ar y cyd gan Lywodraethau'r DU yn nodi y dylai'r ceffylau hyn gael eu gwahardd yn barhaol rhag mynd i mewn i'r gadwyn fwyd ddynol hefyd.

Mae'r mesurau diogelwch ychwanegol hyn wedi dileu dull gwaredu cyffredin a oedd ar gael cyn hynny i berchnogion ceffylau. Gan fod perchnogion yn methu adennill costau drwy waredu ceffyl mewn lladd-dy, bu'n rhaid iddynt dalu am ddifa a gwaredu eu ceffyl.

Rhwng mis Tachwedd 2011 a mis Mawrth 2013, amcangyfrifir bod Heddlu'r De, Gwasanaeth Tân De Cymru ac awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg wedi gwario £1.2 miliwn ar fynd i'r afael ag achosion yn ymwneud â cheffylau. Nodwyd y ffigur hwn gan Lywodraeth Cymru yn yr ymgynghoriad gwreiddiol[4] ar gyflwyno'r Ddeddf, ac mae wedi'i ddefnyddio gan nifer o randdeiliaid ers ei gyhoeddi.

Yn ystod yr un cyfnod adrodd, nododd Heddlu'r De eu bod wedi cael gwybod am dros 1,500 o ddigwyddiadau'n ymwneud â phori ceffylau'n anghyfreithlon, ceffylau'n crwydro neu geffylau'n cael eu gadael.

Cafodd y sefyllfa yng Nghymru ei disgrifio fel "argyfwng ceffylau posibl" gan y sector elusennol[5], ac aeth y cyfryngau ati i godi ymwybyddiaeth o'r sefyllfa drwy barhau i roi sylw i'r problemau yn 2013.

[4] Tudalen 9 o'r Ddogfen Ymgynghori: Pori Anghyfreithlon a Gadael Ceffylau a Merlod. 4 Mawrth 2013 http://gov.wales/docs/drah/consultation/130308fly-grazing-consultation-en.pdf

[5] Left on the verge: in the grip of an equine crisis in England and Wales (2013) http://www.worldhorsewelfare.org/Files/ff78299f-0018-4db6-8abd-a36a00f9212d/The-horse-crisis-report.pdf

## 5. PERTHYNAS Y DDEDDF Â DEDDFWRIAETH BRESENNOL

Mae'r Cyngor Lles Ceffylau Cenedlaethol (NEWC) yn cytuno â'r farn fod angen cyfuniad o dair dogfen ddeddfwriaethol ddomestig sylfaenol er mwyn cyflwyno rheoliadau'n ymwneud â cheffylau yn llwyddiannus yn y DU. Mae'r rheoliadau hyn yn ategu ei gilydd er mwyn ymafael mewn ceffylau sy'n pori'n anghyfreithlon, ceffylau sy'n crwydro a cheffylau sydd wedi'u gadael, a mynd i'r afael â phryderon ehangach yn ymwneud â lles ceffylau ac adnabod ceffylau yn nhiriogaethau'r DU. Mae'r rhan fwyaf o randdeiliaid yn credu bod Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014 yn fecanwaith ychwanegol i fynd i'r afael â phori anghyfreithlon, ceffylau'n crwydro a cheffylau'n cael eu gadael.

Mae awdurdodau lleol yn y DU yn gallu defnyddio nifer o reoliadau domestig i fynd i'r afael â phryderon yn ymwneud â cheffylau, ac ategir y rheoliadau hyn gan reoliadau presennol yr UE. Dyma'r rheoliadau penodol yng Nghymru:

- Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014
- Deddf Anifeiliaid 1971
- Deddf Lles Anifeiliaid 2006
- Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009
- Rheoliad yr UE Rhif 2015/262

Yn ogystal â'r polisïau penodol hyn, mae deddfwriaeth amgen ar gael, fel Deddf Priffyrdd 1980, ac mae modd defnyddio'r ddeddf hon gan ddibynnu ar fanylion pob achos.

### *Deddf Anifeiliaid 1971:*

Er bod Deddf Anifeiliaid 1971 yn darparu ar gyfer ymafael mewn anifeiliaid sy'n crwydro, mae Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014 yn pennu llai o amser i fynd i'r afael â'r mater ac yn cynnig dulliau gwaredu gwahanol.

Mae darpariaethau Deddf Anifeiliaid 1971 ar gael i ddefnyddwyr yn ehangach ac nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r awdurdod lleol yn unig, yn wahanol i'r Ddeddf a adolygir yma.

Mae'r dulliau gwaredu a ganiateir o dan Ddeddf Anifeiliaid 1971 wedi'u cyfyngu i arwerthiant neu farchnad gyhoeddus yn unig.

### *Deddf Lles Anifeiliaid 2006:*

Mae'r Ddeddf hon yn rhoi'r hawl i unrhyw un ddwyn achos preifat yn erbyn unigolyn neu grŵp o unigolion sydd, ym marn y sawl sy'n dwyn yr achos, wedi cyflawni trosedd o dan y Ddeddf. Mae'r Ddeddf hon yn cael ei defnyddio'n aml gan y sector elusennol i ddwyn achosion yn ymwneud â lles ac esgeulustod.

### *Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009:*

Daeth Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009 ("EIWR (2009)") i rym ar 1 Hydref 2009. Fel y nodir yn Adran (2), mae'r EIWR (2009) yn cyflwyno Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 504/2008.

Ar 1 Ionawr 2016, diddymwyd Rheoliad (CE) Rhif 504/2008 gan Reoliad (CE) Rhif 2015/262 yn Erthygl 42, sy'n datgan:

*Regulation (EC) No 504/2008 is repealed with effect from 1 January 2016.*
*References to the repealed Regulation shall be construed as references to this Regulation.*

Gan fod EIWR (2009) wedi cyfeirio'n benodol at Reoliad (CE) Rhif 504/2008 pan ddiddymwyd y ddogfen hon, mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y broses o orfodi'r EIWR (2009) wedi'i dileu hefyd, ac y bydd y sefyllfa hon yn parhau nes bod modd disodli'r EIWR (2009) ag offeryn statudol wedi'i ddiweddaru. Fel arfer, awdurdodau lleol a Safonau Masnach fyddai'n gyfrifol am unrhyw broses o orfodi'r rheoliadau hyn.


# 6. ADOLYGU'R DDEDDF

## 6.1 MABWYSIADU'R DDEDDF

Ers i'r Ddeddf gael ei chyflwyno ar 27 Ionawr 2014, mae 11 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru wedi defnyddio'r ddeddf i ymafael mewn o leiaf un ceffyl, sef:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Dinas Caerdydd
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Dinas a Sir Abertawe
- Cyngor Bro Morgannwg
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Mae 6 o'r 11 awdurdod lleol uchod wedi cofnodi o leiaf un achos o ymafael mewn ceffyl ym mhob un o'r tair blynedd ers cyflwyno'r Ddeddf. Mae Ffigur III yn dangos cyfanswm yr achosion o ymafael mewn ceffylau fesul blwyddyn ar gyfer pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.




**Ffigur III**. Cyfanswm y ceffylau yr ymafaeliwyd ynddynt fesul blwyddyn gan bob awdurdod lleol o dan y Ddeddf

Number of horses seized under the Act – Nifer y ceffylau yr ymafaeliwyd ynddynt o dan y Ddeddf
Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Sir Penfro, Powys, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Torfaen, Bro Morgannwg, Wrecsam, Blaenau Gwent a Chaerffili

**Nid yw'r ffigurau ar gyfer Cynghorau Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Chaerffili yn cynnwys y 49 o geffylau yr ymafaeliwyd ynddynt ym mis Gorffennaf 2014 ar Gomin Manmoel, gan fod y ddau awdurdod lleol wedi cydweithio yn yr achos hwn. Mae'r achos hwn wedi'i nodi fel eitem ar wahân o dan Flaenau Gwent a Chaerffili yn Ffigur III.

Mae'r ffigurau a ddaeth i law fel rhan o'r adolygiad hwn yn dangos yn glir bod nifer y ceffylau yr ymafaeliwyd ynddynt o dan y Ddeddf yn Abertawe yn fwy na'r cyfanswm yng ngweddill Cymru. Mae'r sefyllfa hon i'w phriodoli i agwedd hanesyddol yr awdurdod lleol at ymafael mewn ceffylau, a graddfa'r broblem yn yr awdurdod lleol. Cyn cyflwyno'r Ddeddf, dylid nodi bod yr awdurdod lleol yn rheoli polisi ymafael gweithredol, gan ddefnyddio Deddf Gorllewin Morgannwg 1987. Ar ôl cyflwyno'r Ddeddf, aeth yr awdurdod lleol ati i ddiweddaru ei bolisïau er mwyn defnyddio'r Ddeddf newydd, gan fanteisio ar gyfnod ymafael sylfaenol llai a dulliau gwell o waredu ceffylau.

Mae cynrychiolwyr o Ddinas a Sir Abertawe wedi datgan bod y rhan fwyaf o geffylau yr ymafaeliwyd ynddynt o dan y Ddeddf yn geffylau trefol. Mae’r ceffylau hyn yn cael eu cadw gan aelodau’r cyhoedd sy’n byw oddi mewn i ffiniau’r ddinas, sy’n dewis pori’r ceffylau ar barseli tir yng nghyffiniau eu hanheddiad eu hunain. Mae’r awdurdod lleol yn ymafael mewn anifeiliaid yn rheolaidd ar dir fel parciau, caeau chwarae, mannau cyhoeddus agored ac eiddo masnachol.

Mae’r awdurdod lleol yn credu bod y gostyngiad yn nifer y ceffylau yr ymafaeliwyd ynddynt yn y tair blynedd ers cyflwyno’r Ddeddf i’w briodoli i fwy nag un ffactor. Mae yna dystiolaeth glir bod cydweithio drwy Grŵp Ceffylau Abertawe, sy’n cynnwys yr awdurdod lleol, yr RSPCA, gwarchodfeydd lleol, grwpiau cymunedol a sefydliadau elusennol eraill, wedi arwain at lawer mwy o berchnogion yn cydymffurfio â’r ddeddf, a gostyngiad yn y gyfradd ymafael. Credir bod cyfuniad o symud nifer o geffylau o’r ardal a rhaglen addysgu yn ymwneud â bridio cyfrifol wedi lleihau nifer y ceffylau sy’n byw yng nghyffiniau’r ddinas.

Tair blynedd ar ôl cyflwyno’r Ddeddf, nid yw 11 awdurdod lleol wedi defnyddio ei phwerau eto, sef:

- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir y fflint
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Sir Casnewydd
- Cyngor Sir Penfro
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Mewn ymateb i’r adolygiad hwn, nododd rhai o’r awdurdodau lleol uchod nad oes ganddynt broblemau’n ymwneud â phori anghyfreithlon, ceffylau’n crwydro neu geffylau’n cael eu gadael yn eu hardaloedd nhw. Roedd yr awdurdodau hyn yn cynnwys Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Yng Nghasnewydd, er bod tystiolaeth o bori anghyfreithlon a rhwymo ar dir preifat, mae’r tirfeddiannwr yn goddef y sefyllfa hon gan fod y tir wedi’i neilltuo’n dir i’w ddatblygu yn y dyfodol. Mae’r awdurdod lleol yn ymwybodol o’r sefyllfa, ond nid yw’r tirfeddiannwr wedi gofyn am unrhyw ymyriad arall hyd yn hyn.

Yn ôl Cyngor Dinas Casnewydd, os yw pori ceffylau’n anghyfreithlon a cheffylau’n crwydro yn peri problemau, mae’n mynd ati i ddefnyddio darpariaethau sydd ar gael drwy Ddeddf Priffyrdd

1980, Deddf Anifeiliaid 1971 a Deddf Camweddau (Ymyrraeth â Nwyddau) 1977, gan fod angen llai o adnoddau i ddefnyddio'r deddfau hyn na'r Ddeddf.

Mewn ardaloedd fel Castell-nedd a Phort Talbot, lle mae problemau wedi codi, mae'r tirfeddiannwr neu'r meddiannydd, gyda chymorth yr awdurdod lleol, wedi llwyddo i ddatrys y broblem heb orfod defnyddio'r Ddeddf.

Er nad oes unrhyw achosion wedi'u cofnodi yn yr 11 awdurdod lleol uchod, mae'n bosibl nad yw hyn yn adlewyrchiad cywir o'r sefyllfa yn yr ardal. Er enghraifft, mae tystiolaeth gan Gyngor Sir Fynwy yn dangos bod y bygythiad o orfodi'r Ddeddf a'r posibilrwydd o ymafael mewn ceffylau yn ddigon i ddatrys y sefyllfa fel arfer, heb orfod nodi a chofnodi achos yn y gofrestr.

Hefyd, mae rhai o'r awdurdodau lleol hyn wedi nodi bod cyfyngiadau cyllidebol a gostyngiad mewn adnoddau yn golygu nad oes unrhyw ddarpariaethau ar waith ar hyn o bryd i ymafael mewn ceffylau a'u cadw yn eu hardal. Pe bai angen i'r awdurdodau lleol hyn fynd ati i ymafael mewn ceffylau, deallir y byddai'r rhan fwyaf ohonynt yn gofyn am gymorth awdurdodau lleol cyfagos neu gontractwr allanol.

Wrth i nifer yr achosion leihau, ac wrth i lefelau adnoddau a chyllid barhau i ostwng, mae'r un agwedd yn cael ei mabwysiadu bellach gan nifer o awdurdodau lleol sydd wedi mynd ati i ymafael mewn ceffylau ers 2014.

Yn ôl tystiolaeth a gyflwynwyd i'r adolygiad hwn, mewn achosion lle mae problemau wedi codi mewn awdurdodau lleol penodol, a bod cais am gymorth wedi'i wneud, mae'r awdurdodau lleol wedi penderfynu datrys y broblem drwy ddefnyddio dulliau amgen, yn hytrach na defnyddio darpariaethau'r Ddeddf. Y rheswm a nodwyd am beidio â defnyddio'r Ddeddf oedd diffyg adnoddau, diffyg cyllid a diffyg gwybodaeth am sut i ymafael mewn ceffylau yn gywir.

Mae yna ystyriaethau daearyddol clir yn gysylltiedig â phori anghyfreithlon yng Nghymru. Mae angen ystyried lledaeniad y boblogaeth ledled Cymru, lleoliad cytrefi yn y wlad, a'r dirwedd a'r math o borfa sydd ar gael. Mae'r rhan fwyaf o achosion o bori anghyfreithlon – cyn ac ers cyflwyno'r Ddeddf – wedi digwydd yn y De, fel mae'r data yn Ffigur III yn ei ddangos.

Hefyd, mae angen ystyried bodolaeth pwerau lleol cyn cyflwyno'r Ddeddf. Roedd Caerdydd, Morgannwg Ganol a Gorllewin Morgannwg yn gallu manteisio ar ddarpariaethau'r Deddfau lleol hyn, gan fod mwy o achosion hanesyddol o bori anghyfreithlon, ceffylau'n crwydro a cheffylau'n cael eu gadael yn yr ardaloedd hyn.


## 6.2 NIFER YR ACHOSION A RIPORTIWYD O BORI ANGHYFREITHLON, CEFFYLAU'N CRWYDRO A CHEFFYLAU'N CAEL EU GADAEL

Er bod y Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer cofnodi pob achos o ymafael mewn ceffylau o dan y Ddeddf mewn cofrestr, nid oes unrhyw ofyniad yn y Ddeddf i gofnodi nifer yr achosion lle na ymafaeliwyd mewn ceffylau.

Mae awdurdodau lleol yn nodi bod cyfran sylweddol o'u hachosion yn ystod y cyfnod dan sylw wedi'u datrys drwy gyfryngu, addysgu a chydweithio. Serch hynny, nid oes unrhyw fecanwaith ar waith i gofnodi nifer y ceffylau perthnasol yn y cyswllt hwn.

O safbwynt riportio achosion yn ymwneud â cheffylau, mae angen ystyried canfyddiad a dealltwriaeth y cyhoedd o ba sefydliad y credant sy'n gyfrifol am ddatrys problem.

Mewn arolwg a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2013[6], nodwyd bod 71% o ymatebwyr yn cysylltu â'r RSPCA i roi gwybod am broblem yn ymwneud â cheffylau, a bod yr ymatebwyr dair gwaith yn fwy tebygol o gysylltu â'r sefydliad elusennol hwn na'r awdurdod lleol.




**Ffigur IV**. Ymatebion i arolwg ar-lein a gynhaliwyd gan YouGov ccc ar ran yr RSPCA, yn holi 1,012 o oedolion yng Nghymru pwy y byddent yn cysylltu â nhw i riportio problem yn ymwneud â cheffylau [6].

Percentage of respondents (%) – Canran yr ymatebwyr (%)

Awdurdodau Lleol Llywodraeth Cymru Yr Heddlu RSPCA Sefydliad lles anifeiliaid neu elusen arall Milfeddyg Ni fyddwn yn cysylltu â neb Ddim yn gwybod

[6] Arolwg YouGov ccc ar ran yr RSPCA https://d25d2506sfb94s.cloudfront.net/cumulus_uploads/document/men736edvp/YG-Arhcive-RSPCA-Welsh-results-220713-horse-welfare.pdf

Mewn ymateb [7] i lythyr [8] oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, dywedodd Rebecca Evans AC fod llinell gymorth bwrpasol wedi'i sefydlu ers cyflwyno'r Ddeddf i gynorthwyo'r cyhoedd sy'n pryderu ynglŷn ag achosion posibl o geffylau'n pori'n anghyfreithlon.

Ar ôl cyflwyno'r Ddeddf, sefydlodd Llywodraeth Cymru bwynt cyswllt e-bost ar gyfer y rhai sy'n dymuno riportio digwyddiadau. Hysbysebwyd hyn yn eang yng nghyhoeddiad Materion Gwledig Llywodraeth Cymru, Gwlad, ac yn y cyfryngau.

Er bod rhai heddluoedd a gwasanaethau tân yn cofnodi nifer yr achosion y maen nhw'n eu mynychu, mae'n bosibl nad yw'r cofnodion hyn yn adlewyrchu'n gywir cyfanswm y ceffylau sy'n cael eu heffeithio, a hynny oherwydd adroddiadau lluosog yn ymwneud â'r un ceffyl neu un digwyddiad yn ymwneud â nifer fawr o geffylau.


Mae dull y gwahanol heddluoedd  o gofnodi ac echdynnu data yn amrywio, felly mae'n bosibl na fydd cymhariaeth uniongyrchol rhwng heddluoedd yn rhoi darlun gwir a chywir o'r problemau a gododd.

Mae Heddlu De Cymru wedi'i rannu'n bedair Uned Awdurdod Sylfaenol, gyda phob un yn adrodd i adnodd canolog. Mae'r Heddlu wedi darparu ffigurau yn ymwneud â'r holl ddigwyddiadau a oedd yn cynnwys y termau 'ceffyl, 'merlyn' neu 'ferlod' rhwng 1 Ionawr 2010 a 1 Ionawr 2017. Adolygwyd y data perthnasol gan yr Heddlu, ac os nad oedd y cyd-destun yn berthnasol i'r adolygiad hwn, cafodd yr achosion eu dileu â llaw.

Er nad yw'r data yn gofnod cwbl gywir o'r holl achosion, nododd yr Heddlu y dylid ei ystyried yn amcangyfrif mor gywir â phosibl o ystyried yr adnoddau a neilltuwyd i gasglu a chrynhoi'r data.

[7] Llythyr gan Rebecca Evans AC yn ymateb I Alun Ffred Jones AC, dyddiedig 15 Medi 2015 http://www.senedd.assembly.wales/documents/s44711/Paper%2012.pdf

[8] Llythyr gan Alun Ffred Jones AC at Carl Sergeant AC, dyddiedig 8 Gorffennaf 2015 http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s42579/Llythyr%20gan%20y%20Cadeirydd%20at%20y%20Gweinidog%20Cyfoeth%20Naturiol.pdf




**Ffigur V**. Nifer yr adroddiadau yn ymwneud â phori ceffylau'n anghyfreithlon, ceffylau'n crwydro neu geffylau'n cael eu gadael a ddaeth i sylw Heddlu De Cymru, ar sail Uned Awdurdod Sylfaenol.

Number of reported incidents – Nifer yr achosion a gofnodwyd
Canolog Dwyrain Gogledd Gorllewin

Mae'r Unedau Awdurdod Sylfaenol wedi'u rhannu'n Uned Ganolog sy'n gweithredu yn ardaloedd awdurdodau lleol Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr, tra bod Uned y Dwyrain yn cwmpasu awdurdod lleol Caerdydd. Mae Uned y Gogledd yn cwmpasu awdurdodau lleol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful, ac mae Uned y Gorllewin yn cwmpasu awdurdodau lleol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Fel mae Ffigur V yn ei ddangos, cyrhaeddodd nifer y digwyddiadau benllanw yn 2012, gyda 1,986 o achosion yn awdurdodaeth Heddlu De Cymru. Mae'r ffigur hwn wedi lleihau ym mhob Uned Awdurdod Sylfaenol bob blwyddyn, a chofnodwyd 334 o achosion yn 2016, sef gostyngiad o 83% dros bedair blynedd.

ARGYMHELLIAD

Mae angen sefydlu mecanwaith adrodd unedig, a sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd, mewn ymdrech i wella cywirdeb ac eglurder adrodd ar ddigwyddiadau.


Gan fod asiantaethau a sectorau lluosog yn gweithredu systemau adrodd annibynnol, mae'n anodd gwybod yn union faint o ddigwyddiadau'n ymwneud â phori anghyfreithlon sydd wedi bod yng Nghymru ers cyflwyno'r Ddeddf. Os oes mecanwaith adrodd unedig yn cael ei

gyflwyno, dylid sicrhau bod pob rhanddeiliad yn ei ddefnyddio er mwyn rhoi darlun cywir o'r sefyllfa bresennol.

Hefyd, byddai defnyddio system adrodd ar-lein syml yn helpu'r rhai sy'n rhoi gwybod am ddigwyddiadau i nodi lleoliad y ceffylau y maen nhw'n pryderu amdanynt, gan ddefnyddio technoleg mapio safonol. Hefyd, byddai hyn yn galluogi'r rhai sy'n ymchwilio i bryderon i gyfuno adroddiadau lluosog yn ymwneud â'r un ceffylau, gan gynnig dull adrodd ac ymchwilio mwy cydlynus ac effeithlon.

## 6.3 NIFER Y CEFFYLAU YR YMAFAELIWYD YNDDYNT O DAN Y DDEDDF

Ymafaeliwyd mewn cyfanswm o 1,047 o geffylau o dan y Ddeddf yn ystod y cyfnod rhwng 27 Ionawr 2014 a 26 Ionawr 2017. Mae Ffigur VI yn dangos cyfansymiau misol ar gyfer ceffylau yr ymafaeliwyd ynddynt gan yr 11 awdurdod lleol yng Nghymru sydd wedi defnyddio'r Ddeddf.




**Ffigur VI**. Cyfanswm y ceffylau yr ymafaeliwyd ynddynt bob mis o dan y Ddeddf [9]

Number of horses seized under the Act – Nifer y ceffylau yr ymafaeliwyd ynddynt o dan y Ddeddf

Ion-14 Chwe-14 Maw-14 Ebr-14 Mai-14 Meh-14 Gorff-14 Awst-14 Medi-14 Hyd-14 Tach-14 Rhag-14
Ion-15 Chwe-15 Maw-15 Ebr-15 Mai-15 Meh-15 Gorff-15 Awst-15 Medi-15 Hyd-15 Tach-15 Rhag-15
Ion-16 Chwe-16 Maw-16 Ebr-16 Mai-16 Meh-16 Gorff-16 Awst-16 Medi-16 Hyd-16 Tach-16 Rhag-16
Ion-17

Mae'r ffigur uchel ym mis Gorffennaf 2014 yn deillio o'r 49 o geffylau yr ymafaeliwyd ynddynt fel rhan o'r ymgyrch ar Gomin Manmoel, ac mae'r ffigur uchel ym mis Awst 2016 yn deillio o Ymgyrch Violet Vulcan ar Fferm Llangewydd Court, pan ymafaeliwyd mewn 70 o geffylau. Mae manylion y ddau ddigwyddiad i'w gweld yn ddiweddarach yn yr adolygiad hwn.

Mae'r graff yn dangos bod nifer y ceffylau yr ymafaeliwyd ynddynt yn uwch yn gyffredinol yn y flwyddyn gyntaf ar ôl cyflwyno'r Ddeddf, pan ymafaeliwyd mewn 30 o geffylau bob mis ar gyfartaledd (ac eithrio'r 49 o geffylau ar Gomin Manmoel). Roedd gostyngiad yn nifer y ceffylau yr ymafaeliwyd ynddynt wedyn yn ystod Gwanwyn 2015, ac roedd y ffigur yn amrywio rhwng tua 5 a 35 bob mis wedyn. Ymafaeliwyd mewn 23 o geffylau bob mis ar gyfartaledd yn 2015, ac ymafaeliwyd mewn 18 bob mis ar gyfartaledd yn 2016 (ac eithrio'r 70 o geffylau ar Fferm Llangewydd Court).

[9] Oherwydd y data cyfyngedig a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Rheoleiddio Cyffredin oddi mewn i ffiniau Dinas Caerdydd, lle na darparwyd dyddiadau digwyddiadau, mae amcangyfrif wedi'i ddefnyddio ar sail dyddiad canlyniad pob digwyddiad.

Mae ymgyrchoedd awdurdodau lleol yn amrywio o ymafael mewn un ceffyl i ymgyrchoedd ymafael ar raddfa fawr sy’n cael eu cynllunio ymlaen llaw, fel y ddau achos y cyfeirir atynt uchod. Mae Tabl I isod yn dangos nifer y digwyddiadau ar wahân yn erbyn y ceffylau yr ymafaeliwyd ynddynt gan bob awdurdod lleol ers y Ddeddf.

| Awdurdod Lleol | Cyfanswm y Ceffylau yr ymafaeliwyd ynddynt | Cyfanswm y digwyddiadau | Cyfanswm y digwyddiadau'n ymwneud ag: | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1 ceffyl | 2-5 ceffyl | 6-20 ceffyl | Dros 21 o geffylau |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 49 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 110 | 10 | 3 | 4 | 2 | 1 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 54 | 3 | 0 | 2 | 0 | 1 |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 53 | 30 | 20 | 10 | 0 | 0 |
| Cyngor Dinas Caerdydd | 231 | Dim gwybodaeth ar gael | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 20 | 13 | 8 | 5 | 0 | 0 |
| Cyngor Sir Powys | 12 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Dinas a Sir Abertawe | 466 | Dim gwybodaeth ar gael | | | | |
| Cyngor Bro Morgannwg | 41 | 14 | 5 | 7 | 2 | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 23 | 3 | 1 | 1 | 1 | 0 |

**Tabl I:** Manylion nifer a graddfa'r gwaith ymafael mewn ceffylau a gwblhawyd gan awdurdodau lleol o dan y Ddeddf

Er bod y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol gadw cofrestr o'r holl geffylau yr ymafaeliwyd ynddynt o dan y Ddeddf, mae angen ystyried cwmpas y cofnodion hyn a nifer y ceffylau sydd wedi'u heffeithio gan y Ddeddf.

Diolch i berthynas waith agos â pherchnogion ceffylau yn eu prif ardaloedd, mae llawer o awdurdodau lleol wedi nodi bod bygythiad i ddefnyddio'r Ddeddf wedi bod yn ddigon yn aml i annog perchnogion i symud ceffylau cyn bod angen i'r awdurdod lleol gymryd camau pellach. Yn y sefyllfaoedd hyn, gan na chafodd y ceffylau eu hadnabod yn ffurfiol, ac na chafodd unrhyw hysbysiad ei gyflwyno'n ffurfiol, ni chafodd y gofrestr ei diweddaru i gynnwys yr achosion hyn.

Mae gan Warden Ceffylau Cyngor Dinas Caerdydd fanylion ffôn symudol aelodau'r gymuned y mae'n gweithio gyda nhw'n rheolaidd. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi datblygu dull o gyfathrebu â'r gymuned leol drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a negeseua uniongyrchol. Fel y nodir yn Astudiaeth Achos C, tan yn ddiweddar, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gallu cyfathrebu ag un aelod o'r gymuned a fyddai'n sicrhau bod achosion posibl yn cael eu datrys cyn bod angen rhoi camau gorfodi ar waith. Roedd y ffactor hwn yn bwysig iawn ym mhatrwm gwaith ymafael mewn ceffylau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam; ar ôl ymafael mewn un ceffyl ym mis Ebrill 2014 a dau ym mis Mai 2014, ni chofnodwyd unrhyw achos arall nes i'r Cyngor ymafael mewn nifer fawr o geffylau ym mis Ionawr 2017 ac mewn 9 ceffyl arall y mis canlynol. Digwyddodd y ddau achos diweddaraf ar ôl bwlch o tua 2 flynedd ac 8 mis, ar ôl marwolaeth yr unigolyn y cyfeirir ato uchod.

## 6.4 ADNABOD CEFFYLAU YR YMAFAELIWYD YNDDYNT O DAN Y DDEDDF

Mae rheoliad yr UE yn datgan bod yn rhaid marcio pob ceffyl sydd wedi'i adnabod am y tro cyntaf â microsglodyn. Nid oes unrhyw ofyniad statudol yn y DU neu yn yr UE yn ehangach i ficrosglodynnu ceffylau a gafodd eu hadnabod cyn mabwysiadu Rheoliadau 2008 yr EU (1 Gorffennaf 2009).

Yn ôl y dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr adolygiad hwn, mewn 65% o'r achosion[10] o bori ceffylau'n anghyfreithlon, ceffylau'n crwydro neu geffylau'n cael eu gadael, nid oedd yr anifeiliaid wedi'u microsglodynnu.

Mewn achosion lle mae ceffylau'n cael eu gadael, nodir na fydd y posibilrwydd o olrhain y ceffylau er budd pennaf y perchennog, gan y gallai'r perchennog fod wedi gadael yr anifail er mwyn osgoi talu'r costau sy'n gysylltiedig â'i waredu. Neu mae'n bosibl bod y perchennog eisiau ymbellhau oddi wrth unrhyw faterion lles yn y dyfodol.

Yn yr un modd, os yw perchennog yn pori anifail yn anghyfreithlon, ac nad oes llawer o werth ariannol i'r anifail, mae'n bosibl na fydd adnabod yr anifail er budd pennaf y perchennog. Os yw'r anifail yn cael ei ymafael o dan y Ddeddf, ac os yw'r awdurdod lleol yn ceisio adennill costau gan y perchennog, gall y costau hyn fod yn fwy na gwerth ariannol yr anifail, a gall fod yn fanteisiol i'r perchennog beidio â chael ei olrhain.

ARGYMHELLIAD

Dylai awdurdodau lleol geisio sicrhau bod pob anifail sy'n cael ei ymafael o dan y Ddeddf yn cael ei adnabod yn barhaol.

Mewn achosion o ymafael mewn ceffylau, mae'r adolygiad hwn yn argymell y dylai'r awdurdod lleol fabwysiadu polisi o sicrhau bod microsglodyn yn cael ei osod os nad oes gan y ceffyl ficrosglodyn eisoes.

Mewn achosion o ymafael mewn nifer llai o geffylau, mae'n arfer cyffredin i'r awdurdodau lleol symud y ceffylau i leoliad diogel fel bod modd monitro eu lles yn ystod y cyfnod ymafael. Mae'r ceffylau hyn yn cael eu sganio i weld a oes ganddynt ficrosglodyn er mwyn cofnodi perchnogaeth. Tra bod y ceffylau o dan ofal yr awdurdod lleol ac yn cael eu trin mewn cyfleuster dal ceffylau, dylai'r awdurdod lleol manteisio ar y cyfle i ficrosglodynnu'r ceffylau cyn eu rhyddhau.

Os yw awdurdod lleol yn penderfynu ymafael mewn ceffylau ond eu cadw ar yr un safle, dylid manteisio ar y cyfle i ficrosglodynnu'r ceffylau hyn wrth ymafael ynddynt. Mae wedi dod i'r

10 Dim ond 8 o'r 11 awdurdod lleol gweithredol sy'n cadw cofrestr a oedd yn gallu darparu tystiolaeth mewn fformat a oedd yn hwyluso adrodd yn rhannol neu'n llawn ar nifer y microsglodynnau a ganfuwyd.

amlwg bod perchnogion yn symud anifeiliaid yn aml ar ôl i hysbysiad gael ei gyflwyno, ac felly byddai'r dull adnabod hwn yn golygu bod modd olrhain y ceffylau hyn yn y dyfodol. Er y deallir ei bod yn haws hwyluso proses o ymafael mewn ceffylau ar y safle, gan nad oes angen cyfleusterau penodedig na rhyngweithio â'r ceffylau o reidrwydd, mae'n hanfodol adnabod y ceffylau fel bod modd olrhain unrhyw berchnogion, wrth ymafael yn y ceffylau ac yn y dyfodol.

Dylid nodi ei bod yn ofyniad statudol o dan EIWR (2009) bod pob ceffyl yn cael ei adnabod a bod ganddo ddogfennau adnabod cyn teithio. Er bod modd ystyried bod ymafael mewn ceffylau yn amgylchiad arbennig, ar ôl cwblhau'r broses ymafael, dylai unrhyw symudiadau eraill gydymffurfio â'r EIWR (2009) os oes modd.

Er y deallir bod angen adnoddau i ymgeisio am basbort, a bod angen ystyried cymhlethdodau eraill yn aml – fel bodolaeth dogfen bresennol, neu benderfynu ar berchnogaeth – ni ddylai hyn effeithio ar yr angen i osod microsglodyn.

Er bod rheoliadau'r UE a'r DU yn datgan bod angen gosod microsglodyn mewn unrhyw geffyl sy'n cael ei adnabod er mwyn cael pasbort, nid yw'r rheoliadau yn cynnwys unrhyw ddatganiad sy'n eithrio ceffyl a gafodd ei adnabod ynghynt rhag cael microsglodyn os nad oes ganddo un eisoes.

Os yw perchennog yn camu ymlaen i geisio hawlio ceffyl yr ymafaeliwyd ynddo, gellir diweddaru unrhyw basbort sy'n bodoli eisoes drwy nodi rhif y microsglodyn newydd. Os nad oes pasbort ar gael, gellid cychwyn y broses o wneud cais am basbort fel rhan o raglen addysgol er mwyn sicrhau bod y perchennog yn cydymffurfio â'r rheoliad domestig perthnasol wrth symud ymlaen. Yn y naill achos a'r llall, byddai'r perchennog yn atebol am gost y microsglodynnu, gan fod y gwaith hwnnw wedi'i wneud fel rhan o ymafael yn y ceffyl.

## 6.5 CYMHARU'R DEDDFAU YNG NGHYMRU A LLOEGR

Yn dilyn cyflwyno Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014, cyflwynodd Llywodraeth y DU ddeddfwriaeth debyg yn Lloegr, sef Deddf Rheoli Ceffylau 2015 [11].

Er bod Deddf Lloegr yn diwygio Deddf Anifeiliaid 1971, mae Deddf Cymru yn Ddeddf annibynnol, sy'n sefyll ochr yn ochr â Deddf Anifeiliaid 1971. Mae'r ddau ddull gweithredu yn rhannu'r un amcan, sef gwahardd pori ceffylau'n anghyfreithlon, gan ganiatáu ymafael yn y ceffylau perthnasol a'u gwaredu.

Un gwahaniaeth rhwng y Deddfau yw'r cyfnod ymafael sylfaenol, sy'n 96 awr (4 diwrnod) yn Lloegr o'i gymharu â 7 diwrnod yng Nghymru.

Hefyd, mae Deddf Lloegr yn rhoi pwerau gorfodi i rydd-ddeiliaid a meddianwyr tir yn ogystal ag i awdurdodau lleol. Mae'r sefyllfa yn wahanol yng Nghymru gan mai dim ond awdurdodau lleol sydd â phwerau o dan y Ddeddf.

Yn ystod proses yr adolygiad, nodwyd bod y gwahaniaethau rhwng y Deddfau sydd ar gael yng Nghymru a Lloegr yn bryder allweddol i'r holl randdeiliaid.

Mae rhanddeiliaid wedi ystyried y broses o ddefnyddio'r Ddeddf o nifer o safbwyntiau gwahanol, a bu'r amrywiaeth eang o wybodaeth yn un o ystyriaethau allweddol yr adolygiad hwn.

Er bod undebau'r ffermwyr, perchnogion tir a sawl sefydliad elusennol am weld perchnogion tir yng Nghymru'n cael yr un pwerau â pherchnogion tir yn Lloegr, mae pryderon ynglŷn â'r diwygiad hwn wedi'u nodi.

Trafodwyd y safbwyntiau hyn yn agored yn ystod yr adolygiad hwn wrth ymgysylltu â grwpiau o randdeiliaid. Cyflwynwyd dadleuon dilys o blaid ac yn erbyn y newidiadau yn ystod y trafodaethau agored hyn, gyda'r rhanddeiliaid yn dod i'w casgliadau eu hunain wedyn.

Er bod yr apêl o lai o amser i weithredu a gallu unrhyw unigolyn i ddefnyddio'r Ddeddf yn ymddangos yn fanteisiol i berchnogion tir ar yr olwg gyntaf, ar ôl ystyried y sefyllfa yn Lloegr yn fanylach, roedd nifer o randdeiliaid wedi ailystyried eu safbwynt. Y pwyntiau allweddol a godwyd oedd cyflwyno beilïaid ceffylau yn Lloegr, a'r ffioedd a godir gan y sefydliadau hyn. Hefyd, ystyriwyd y ffaith y byddai rhoi hawl i dirfeddiannwr preifat ddefnyddio'r Ddeddf yn golygu na fyddai'r awdurdod lleol yn cyfrannu at y broses o gwbl. Byddai'r dull gweithredu hwn yn gadael perchnogion tir i weithio'n annibynnol heb arweiniad yr awdurdod lleol.

[11] Deddf Rheoli Ceffylau 2015
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2015/23/pdfs/ukpga_20150023_en.pdf

Mewn achosion lle mae'r defnydd o adnoddau'n gyfyngedig ac mae'r mater yn ymwneud â thir sy'n cael ei berchen neu ei feddiannu'n breifat, bydd awdurdodau lleol yn ceisio grymuso'r tirfeddiannwr drwy ddefnyddio deddfwriaeth wahanol, fel Deddf Anifeiliaid 1971. Mae defnyddio'r deddfau gwahanol hyn yn dileu'r angen i'r awdurdod lleol ymyrryd, gan ryddhau adnoddau'r awdurdod lleol.

Yn ôl y dystiolaeth sydd ar gael o'r defnydd o'r Ddeddf gyffelyb yn Lloegr, mae perchnogion tir yn awyddus i fynd i'r afael â'r broblem o bori ceffylau'n anghyfreithlon, i'r graddau eu bod yn cyflogi, ac yn talu am, Feilïaid Ceffylau i ddatrys y broblem.

Un o'r prif bryderon a gododd y rhanddeiliaid oedd y dull gwaredu sy'n cael ei ddefnyddio gan berchnogion tir. Er bod y cyfnod 7 diwrnod rhwng adnabod ceffyl a datrys y mater yn derfynol yn ymddangos yn ddeniadol, mae'r adolygiad hwn wedi dangos bod y broses hon wedi para 18 diwrnod ar gyfartaledd mewn achosion lle mae elusen yn chwilio am gartref i geffyl. Dylid nodi bod y cyfnod amser a nodir yma ar gyfer ailgartrefu ceffylau wedi'i sicrhau gan awdurdodau lleol sydd wedi sefydlu perthynas waith ag elusennau ceffylau. Mae Tabl II yn dangos y cyfnodau lleiaf, cyfartalog a mwyaf ar gyfer gwaredu ceffylau y mae awdurdodau lleol Cymru wedi ymafael ynddynt o dan y Ddeddf, mewn achosion lle mae data ar gael.

| Llwybr gwaredu | Nifer y ceffylau lle mae dyddiad y gweithredu yn hysbys | Diwrnodau rhwng ymafael a gweithredu | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Lleiaf | Cyfartaledd | Mwyaf |
| Hawliwyd gan y perchennog | 67 | 0 | 9 | 29 |
| Ailgartrefu gydag elusen | 65 | 7 | 18 | 51 |
| Difa | 33 | 7 | 12 | 28 |

**Tabl II:** Nifer y diwrnodau a gymerodd awdurdodau lleol yng Nghymru i waredu ceffylau yr ymafaeliwyd ynddynt, yn ôl llwybr gwaredu.

Pryder arall a amlygir gan yr adolygiad hwn yw'r diffyg strategaeth adrodd ganolog ac felly'r gallu i olrhain digwyddiadau yn Lloegr. Gan fod y Ddeddf yn Lloegr yn rhoi'r grym i bob tirfeddiannwr ymafael mewn ceffylau yn annibynnol, a'r unig ofyniad ar gyfer adrodd yw trwy gronfa ddata genedlaethol yr heddlu, gall defnyddio ystadegau o bob rhan o Loegr er mwyn dysgu o brofiad a symud ymlaen i ddatrys y broblem fod yn aneffeithiol.

ARGYMHELLIAD

Er y dylai perchnogion tir allu manteisio ar ddarpariaethau'r Ddeddf sydd â'r nod penodol o fynd i'r afael â phori anghyfreithlon, ceffylau'n crwydro a cheffylau'n cael eu gadael, dylai'r ymgysylltiad hwn gael ei reoli drwy'r awdurdod lleol.

Mae'r Ddeddf yng Nghymru yn cynnwys nifer o ofynion statudol ar gyfer y rhai sy'n dewis defnyddio'r ddeddfwriaeth. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys amserlenni ar gyfer riportio, gosod hysbysiadau a chyflwyno tystiolaeth ategol, os oes angen prawf o gydymffurfiaeth. Mae'r rhai sydd wedi'u grymuso gan y Ddeddf hefyd yn gyfrifol am gofnodi union gost y gwaith o ymafael yn yr anifail ac o sicrhau ei les yn y cyfnod hwnnw. Mae'n rhaid dychwelyd unrhyw arian ychwanegol sy'n deillio o werthu'r ceffyl i'r perchennog dilys, os oes modd ei adnabod.

Byddai system rheoli digwyddiadau unedig ar gyfer perchnogion tir, meddianwyr tir, Cominwyr ac awdurdodau lleol yn cyflwyno mesurau diogelu i sicrhau bod pob digwyddiad yn ymwneud ag achos dilys, bod y drefn briodol yn cael ei dilyn bob tro a bod yr un safonau ar waith ym mhob tiriogaeth. Hefyd, byddai'r dull gweithredu hwn o dan arweiniad yr awdurdod lleol yn rhwystro rhanddeiliaid rhag ymwrthod â'u cyfrifoldeb, ac yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei hadrodd a'i harchwilio'n fwy agored.

Hefyd, byddai dull gweithredu Cymru gyfan yn golygu bod modd olrhain grwpiau o geffylau sydd wedi'u hadnabod o dan y Ddeddf, ac adnabod tueddiadau daearyddol.

Byddai cynnal system rheoli digwyddiadau yn gwella'r broses o ledaenu gwybodaeth rhwng y rhai sy'n gyfrifol am leihau nifer yr achosion o bori'n anghyfreithlon yng Nghymru a'r rhai sy'n ceisio ailgartrefu ceffylau sydd wedi'u gadael.

## 6.6 GORFODI'R DDEDDF

Mae'r Ddeddf yn rhoi'r un pwerau cyfreithiol i bob awdurdod lleol yng Nghymru er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson ymysg yr awdurdodau lleol sy'n ceisio defnyddio'r pwerau i amddiffyn y cyhoedd a'r amgylchedd rhag y niwsans a achosir gan geffylau sydd wedi'u gadael a cheffylau sy'n pori'n anghyfreithlon. Nid oes unrhyw reidrwydd i awdurdodau lleol ddefnyddio'r Ddeddf os ydynt yn penderfynu nad yw'n briodol.

Yn ystod yr adolygiad hwn, gofynnwyd i randdeiliaid am eu sylwadau ar y ffaith nad yw defnydd o'r Ddeddf gan awdurdodau lleol yn ofyniad gorfodol, ac y gallai awdurdodau lleol ddefnyddio'r pwerau yn ôl eu disgresiwn pan fydd yn briodol gwneud hynny. Pe bai'n dod yn ofynnol i awdurdodau lleol ddefnyddio darpariaethau'r Ddeddf, roedd yr awdurdodau lleol yn poeni na fyddai'r lefel bresennol o adnoddau sydd ar gael i'r awdurdodau lleol yn ddigonol i fynd i'r afael â phob achos posibl, ac y byddai angen sicrhau bod rhagor o adnoddau ar gael ledled Cymru.

Yn yr un modd, pe bai'n ofynnol defnyddio darpariaethau'r Ddeddf, byddai angen ystyried y pwysau gormodol ar awdurdodau lleol i symud ceffylau o sefyllfaoedd lle nad oes perygl uniongyrchol i'r ceffylau ar hyn o bryd. Er enghraifft, pe bai'n ofynnol defnyddio'r Ddeddf, byddai'n rhaid i awdurdodau lleol fynd i'r afael â materion yn ymwneud â cheffylau'n cael eu gadael, a fu'n amlwg ar dir comin yng Nghymru ers dros 20 mlynedd. Amcangyfrifir y byddai angen symud rhwng 250 [12] a 450 [13] o geffylau ar un comin yn unig, gan ddibynnu ar ffynhonnell yr amcangyfrif. Yn ôl ffigurau World Horse Welfare, roedd cyfanswm o tua 400 o geffylau wedi'u gadael ar holl diroedd comin yn y Canolbarth a'r De ym mis Ionawr 2017. Mae'r gwahaniaeth rhwng y ffigurau a ryddhawyd gan y sefydliadau hyn i'w briodoli'n rhannol i'r dulliau casglu, dadansoddi ac adrodd ar ddata.

Ar adeg pan fo'r sector elusennol eisoes yn cael ei lethu'n ormodol gan achosion o geffylau'n cael eu gadael, ac nad oes ganddynt ddigon o le i dderbyn rhagor, mae'n bosibl na fydd modd dod o hyd i le priodol ar gyfer y ceffylau hyn, ac y bydd angen eu difa o'r herwydd.

Mae Astudiaeth Achos D yn trafod y problemau a wynebodd un perchennog tir a ofynnodd am gymorth gan yr awdurdod lleol ym mis Ionawr 2016. Yn yr achos hwn, dywedodd yr awdurdod lleol fod darpariaethau'r Ddeddf ar gael iddo, ond nad oedd unrhyw rwymedigaeth statudol iddo weithredu, ac oherwydd diffyg cyllid ac adnoddau, ni allai'r awdurdod lleol fynd i'r afael ag achosion ar dir preifat. Hysbyswyd y perchennog tir am Ddeddf Anifeiliaid 1971, ac am sut i'w defnyddio.

---

[12] Ffigur Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
[13] Ffigur Cymdeithas Cominwyr Gelligaer a Merthyr

# 7. EFFAITH Y DDEDDF

Mae modd gwahanu pori anghyfreithlon, ceffylau'n crwydro a cheffylau'n cael eu gadael yn gategorïau gwahanol, gyda phob un wedi'i effeithio'n wahanol gan gyflwyno'r Ddeddf.

## 7.1 AR RWYMO CEFFYLAU

Mae'r cyhoedd yn tueddu i feddwl bod pob achos o bori ceffylau'n anghyfreithlon yn ymwneud â rhwymo ceffylau ar dir wrth ymyl priffordd gyhoeddus. Mae'r weithred o rwymo ceffyl yn perthyn i ddiffiniad pori anghyfreithlon yn aml oherwydd union natur y tir sy'n cael ei ddefnyddio. Mae'r adolygiad hwn wedi canfod bod pori o'r fath yn ymwneud â niferoedd bach o geffylau yn aml o'i gymharu â dulliau eraill o bori anghyfreithlon, lle mae rhai achosion wedi cynnwys dros 200 o geffylau.

Er bod rhwymo ceffylau yn bwnc sy'n ennyn emosiynau cryf, gan arwain at nifer o ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol, diben a chwmpas yr adolygiad hwn yw gwerthuso effeithiolrwydd y Ddeddf i leihau pori anghyfreithlon, ac nid yw'n ystyried y pryderon lles sy'n gysylltiedig â'r pwnc hwn.

Mae rhwymo, yn ei hanfod, yn ddull traddodiadol sy'n cael ei ddefnyddio gan y rhai sydd eisiau cadw anifail oddi mewn i ffiniau ardal benodol, heb fod angen codi ffens i atal anifeiliaid. Felly, defnyddir y dull hwn o reoli symudiadau ceffyl ar leiniau glas wrth ymyl y briffordd gyhoeddus, lle nad yw'r glaswelltir wedi'i gau gan unrhyw ffiniau ffisegol.

Yn ôl y dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r adolygiad hwn, os oes achosion o rwymo ceffylau yn codi mewn awdurdodau lleol penodol, mae'r awdurdodau lleol hyn yn gweithio gyda'r gymuned i sicrhau bod anghenion a lles y ceffylau'n cael eu diwallu, ac er nad ydynt yn cymeradwyo'r arferiad, mae'r awdurdodau lleol yn ei oddef.

Mewn nifer o achosion, mae rhwymo ceffylau wedi methu, gan arwain at geffylau'n crwydro i'r briffordd gyhoeddus. Mewn achosion o'r fath, yn aml mae'r heddlu a'r awdurdod lleol yn gwybod o le mae'r ceffylau hyn wedi dod ac maent yn ymwybodol o'r unigolion sy'n gyfrifol am eu gofal. O ganlyniad, maent yn gallu trefnu bod y ceffylau'n cael eu casglu neu eu dychwelyd.

Yn ôl tystiolaeth a ddarparwyd gan rai awdurdodau lleol, weithiau roedd ceffylau a rwymwyd wedi crwydro i'r briffordd gyhoeddus oherwydd bod y rhwymyn ei hun wedi'i niweidio yn hytrach nag oherwydd esgeulustod y rhai sy'n gofalu am y ceffylau.

Oherwydd bod yr arfer o rwymo ceffylau yn cael ei oddef mewn cymunedau trefol, ni ymafaelir mewn ceffylau sydd wedi'u rhwymo o dan y Ddeddf oni bai bod lles y ceffyl neu ddiogelwch y cyhoedd yn peri pryder. Yn ôl yr awdurdodau lleol, mae rhaglen addysg yn fwy effeithiol na defnyddio'r Ddeddf wrth fynd i'r afael â'r materion hyn yn yr hirdymor.

## 7.2 AR GEFFYLAU'N CRWYDRO I'R BRIFFORDD GYHOEDDUS

Yn y lle cyntaf, mae'n glir bod yr heddlu ym mhob ardal yn rhannu'r un amcan sylfaenol, sef sicrhau diogelwch y cyhoedd. Os yw ceffylau'n crwydro i'r briffordd gyhoeddus, y prif bryder yng nghyswllt yr amcan sylfaenol hwn yw sicrhau bod ceffylau'n cael eu symud o'r briffordd gyhoeddus i fan diogel.

Yn y lle cyntaf, os yw swyddogion yr heddlu yn gallu symud y ceffylau i gae cyfagos, bydd hyn yn atal y ceffylau rhag cael eu niweidio o bosibl ar y briffordd gyhoeddus, yn lleihau'r pryder yn ymwneud â diogelwch y cyhoedd, ac yn darparu amgylchedd diogel i'r ceffylau ar gyfer y dyfodol agos.

Mae'r adolygiad hwn yn nodi nad yw pob swyddog yr heddlu yn derbyn hyfforddiant penodol ar sut i drin ceffylau, a phan fydd ceffylau'n rhydd ar y briffordd gyhoeddus, mae'n bosibl na fydd ganddynt goleri neu unrhyw ffordd arall o'u rheoli er mwyn eu symud i fan diogel.

Mae swyddogion yn gorfod ymateb i'r digwyddiadau hyn unrhyw adeg o'r dydd a'r nos, a bydd lefel eu harbenigedd a'u gwybodaeth am geffylau yn amrywio. O ganlyniad, mae angen canmol y swyddogion am eu gwaith yn sicrhau diogelwch y cyhoedd.

Pan fydd ceffyl yn cael ei symud o'r briffordd gyhoeddus i dir preifat, nid oes gofyniad i'r awdurdod lleol ddefnyddio'r Ddeddf o reidrwydd. Os yw'r tir yn eiddo i berchennog preifat, byddai'n rhaid i'r perchennog tir ofyn am gymorth yr awdurdod lleol i ddefnyddio'r darpariaethau yn y Ddeddf.

Os yw dull cydweithredol yn cael ei ddefnyddio, a bod yr awdurdod lleol yn helpu i symud y ceffyl o'r briffordd gyhoeddus, mae'r Ddeddf yn cynnig llwybrau gwaredu ychwanegol ac yn lleihau'r cyfnod ymafael. Er nad oes ffigurau manwl ar gael oherwydd natur adrodd y digwyddiadau hyn, mae'r dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael yn awgrymu bod llai na 10% o geffylau yr ymafaelir ynddynt o dan y Ddeddf yn cael eu symud yn uniongyrchol o'r briffordd gyhoeddus.

Yn ôl tystiolaeth Cyngor Dinas Casnewydd, mae contractwr allanol yn cael ei ddefnyddio pan fydd ceffylau'n crwydro ar briffordd gyhoeddus, ac ymafaelir yn y ceffylau hyn o dan Ddeddf Priffyrdd 1980.

## 7.3 AR BERCHNOGION TIR, MEDDIANWYR TIR AC UNIGOLION PREIFAT

O dan Adran 7 o Ddeddf Anifeiliaid 1971, gall perchennog neu feddiannydd tir gadw unrhyw anifail sy'n crwydro neu'n tresmasu ar dir o dan ei reolaeth. Os yw'r meddiannydd yn cadw'r anifail o dan Ddeddf Anifeiliaid 1971, mae adran 6 yn nodi bod y meddiannydd yn gyfrifol am sicrhau safonau lles yr anifail yn ystod y cyfnod o'i gadw.

Er mwyn sefydlu cyfnod cadw, mae'n rhaid i feddiannydd gydymffurfio ag Adran 3(a) o Ddeddf Anifeiliaid 1971 drwy hysbysu swyddog â gofal mewn gorsaf heddlu ymhen 48 awr i ddechrau'r cyfnod cadw.

Yn ôl perchnogion tir lleol yn ystod yr adolygiad hwn, pe na bai modd sefydlu unrhyw gyfnod cadw o dan Ddeddf Anifeiliaid 1971, ni ellid ystyried bod meddiannydd dilys y tir yn gyfrifol am les yr anifeiliaid, ac o ganlyniad ni fyddent yn mynd ati i gadw anifeiliaid o dan y Ddeddf hon. Nodwyd hefyd mai symud yr anifeiliaid o'u tir oedd yr ateb symlaf, gan y byddai hynny'n negyddu eu cyfrifoldeb, a hynny am y gost isaf.

Dim ond yr awdurdod lleol sy'n gallu gorfodi'r pwerau yn y Ddeddf, ac nid oes unrhyw bwerau uniongyrchol yn cael eu rhoi i berchennog neu feddiannydd y tir.

Yn ôl y dystiolaeth a gasglwyd o gofrestri awdurdodau lleol, mae awdurdodau lleol yn ymateb yn gyflym i bryderon yn ymwneud â diogelwch y cyhoedd. Mewn achosion lle mae ceffylau wedi crwydro ar eiddo preifat sydd hefyd yn agored i'r cyhoedd, fel glaswelltir wrth ymyl unedau busnes, siopau ac ysgolion, ymafaeliwyd yn y ceffylau hyn yn unol â'r Ddeddf yn ôl y dystiolaeth.

Oherwydd natur y broses o gofnodi data yng nghofrestri'r awdurdodau lleol, nid oes modd adrodd yn fanwl ar yr union nifer o achosion ymafael mewn ceffylau sydd wedi digwydd ar dir preifat ledled Cymru. Hefyd, mae angen ystyried cywirdeb y cofnodion, lle y gall ceffyl ddechrau crwydro ar dir cyhoeddus, ac yna symud i eiddo preifat, ac i'r gwrthwyneb.

Dywedodd yr awdurdodau lleol mai sicrhau diogelwch y cyhoedd yw eu blaenoriaeth, ac y byddent yn defnyddio adnoddau yn unol â hynny. Mae problemau sy'n codi ar dir preifat yn cael eu hystyried yn anghydfod sifil fel arfer, ac felly mae modd defnyddio Deddf Anifeiliaid 1971 i'w datrys. Mae Astudiaeth Achos D yng Ngorllewin Cymru yn amlygu'r mater hwn.

Os yw lles yr anifeiliaid hyn yn peri pryder, mae'r sector elusennol yn debygol o ymyrryd er mwyn ceisio datrys y sefyllfa, gyda chymorth y perchennog tir os oes modd.

Fel rhan o'r adolygiad hwn, gofynnwyd i randdeiliaid fel yr undebau ffermio a pherchnogion tir am eu hadborth ar effeithiolrwydd y Ddeddf. Yn ôl NFU Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru, mewn achosion penodol lle'r oedd eu haelodau wedi cysylltu ag awdurdodau lleol ynglŷn â phori anifeiliaid yn anghyfreithlon ar eu tir, roedd gwybodaeth am Ddeddf Anifeiliaid 1971 wedi'i rhoi iddynt.

Mae rhanddeiliaid wedi rhoi nifer o enghreifftiau o'r amgylchiadau lle mae ceffyl yn cael ei roi ar dir preifat. Mae'r achosion hyn yn amrywio o geffyl yn cael ei roi ar dir preifat gan swyddog yr heddlu er budd diogelwch y cyhoedd, i geffyl yn cael ei adael gan y perchennog presennol.

Hefyd, mae angen ystyried Astudiaeth Achos B lle'r oedd perchennog nifer o geffylau'n defnyddio tir heb ganiatâd, gan wybod pe bai Deddf Anifeiliaid 1971 yn cael ei defnyddio y byddai gan y perchennog hawliau pori di-dâl am 13 diwrnod, ac y byddai gan y perchennog tir rwymedigaeth statudol i ddiwallu anghenion lles y ceffylau a oedd yn pori'n anghyfreithlon. Mae'r rhwymedigaethau statudol hyn wedi'u nodi yn Erthygl 7 (6) o Ddeddf Anifeiliaid 1971. Ar ôl cyfnod o 13 diwrnod, byddai'r ceffylau'n cael eu symud gan y perchennog gwreiddiol i leoliad arall er mwyn ailadrodd y broses.

Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan randdeiliaid i'r adolygiad hwn yn dangos yn glir bod awdurdodau lleol yn awyddus i ddatrys materion ar dir preifat mewn ffordd sy'n lleihau costau i'r awdurdod lleol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae awdurdodau lleol yn cyhoeddi canllawiau yn ymwneud â Deddf Anifeiliaid 1971.

## 7.4 AR GYMDEITHASAU COMINWYR

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o randdeiliaid yn derbyn bod yr awdurdod lleol wedi defnyddio'r Ddeddf yn llwyddiannus ar Gomin Manmoel (Astudiaeth Achos A).

Mae'r astudiaeth achos yn dangos nad oedd y cyhoedd wedi cymeradwyo'r broses hon yn wreiddiol. Oherwydd gwrthwynebiad y cyhoedd i'r broses o symud ceffylau o Gomin Manmoel, a'r posibilrwydd o'u difa wedyn, dywedodd yr awdurdod lleol na fyddai'n ystyried gweithredu mewn ffordd debyg ar diroedd comin eraill, oni bai bod modd trefnu amserlen ar gyfer ailgartrefu'r ceffylau.

Gan nad oes gan y sector elusennol na'r sector gwirfoddol ddigon o le i ailgartrefu ceffylau, a gan fod dros 250 o geffylau sydd wedi'u gadael yn pori ar Gomin Gelligaer ar hyn o bryd, nid yw'n ymddangos bod unrhyw ateb i'r broblem o symud y ceffylau hyn o'r comin.

Yn ystod yr adolygiad hwn, dywedodd aelodau o'r sector elusennol y gallai'r sefydliadau sy'n ailgartrefu ceffylau fynd ati i roi cartrefi i'r ceffylau fesul tipyn, os oes awydd symud y ceffylau sydd wedi'u gadael oddi ar y tiroedd comin. O safbwynt y problemau sy'n wynebu'r Cominwyr ar Gomin Gelligaer ar hyn o bryd, byddai'r sector elusennol yn argymell bod tua 50 o geffylau'n cael eu symud ar y tro, gyda'r broses gyfan yn para 5 mlynedd.

Byddai angen ystyried y posibilrwydd o greu cylch parhaus wrth fynd ati i glirio'r tiroedd comin fesul tipyn. Byddai proses o symud tua 50 o geffylau bob 6 mis i ganolfan ailgartrefu yn creu dull gwaredu di-dâl ar gyfer unrhyw berchennog ceffylau sy'n awyddus i ildio cyfrifoldeb am ei geffylau. Er y gellid olrhain perchennog pob ceffyl sydd wedi'i adael, byddai'n amhosibl profi pwy yw perchennog presennol y ceffyl, oherwydd gallai'r perchennog honni bod y ceffyl yn wrthrych gwerthiant neu drosglwyddiad heb ei gofrestru yn ddiweddar. Mae pobl sy'n ymwneud â cheffylau wedi cyfeirio at y diffyg cyfrifoldeb hwn ar y sawl sy'n gwerthu'r ceffyl fel un o wendidau'r EIWR (2009) presennol.

Er y byddai proses raddol o ymafael yn y ceffylau sydd wedi'u gadael yn unol â'r Ddeddf yn galluogi elusennau ailgartrefu i dderbyn ceffylau fesul tipyn, pe bai pryder yn ymwneud â lles yn codi yn ystod y broses hon, fel eira trwm, gallai'r sefyllfa beri pryder difrifol. Pe bai perchnogaeth y ceffylau hyn yn destun anghydfod, a phe na bai unrhyw unigolyn yn gyfrifol am anghenion lles yr anifeiliaid hyn, byddai unrhyw bryderon lles yn debygol o waethygu nes bod angen cyfeirio'r achos at y sector elusennol.

Mae pryderon eraill wedi'u mynegi ynglŷn â'r bridio ar hap sy'n digwydd ar dir comin. Gyda meirch ac ebolion yn rhedeg heb reolaeth ar rai o diroedd comin Cymru, nodwyd bod meddianwyr tir yn mynd ati'n rheolaidd i symud eu ceffylau cynhenid eu hunain o'r tiroedd comin mewn ymgais i sicrhau nad yw ceffylau diledryw yn bridio â meirch estron. Gan fod ceffylau sydd wedi'u gadael yn rhydd i fridio, nodir hefyd bod ebolion yn cael eu geni y tu allan i'r tymor priodol, gan arwain at ganlyniadau gwael i'r gaseg a'r ebol mewn rhai achosion.

Ar hyn o bryd, mae darpariaethau Deddf Cominoedd 1908 yn galluogi Cymdeithas Cominwyr i enwebu swyddog i fod yn gyfrifol am symud a gwaredu anifeiliaid, gan gynnwys meirch ac ebolion, ar unwaith, os ydynt yn torri rheoliadau pori'r Gymdeithas ei hun.

Yn sgil rhyddhau ceffylau sydd wedi'u gadael, mae pryderon wedi'u mynegi ynglŷn â bioddiogelwch unrhyw anifeiliaid sy'n rhedeg ar y tiroedd comin. Pe bai achosion o glefyd heintus yn cael eu nodi yng nghyffiniau unrhyw dir comin yng Nghymru, nodir y byddai graddfa'r achosion yn anhysbys ac y gallai'r gwaith o gyfyngu'r haint gael ei lesteirio gan yr elfen anhysbys hon.

Yn ystod yr adolygiad hwn, mynegodd aelodau o'r undebau ffermwyr bryderon ynglŷn â'r cyhoedd yn bwydo anifeiliaid ar y comin. Mae'r cyhoedd yn rhoi mathau gwahanol o fwyd i'r anifeiliaid hyn ar dir comin. Er bod y cyhoedd yn gwneud hyn oherwydd teimladau o dosturi o bosibl, mae'r ffermwyr ar dir comin wedi mynegi pryderon am hyn.

Mae tystiolaeth yn dangos bod y rhaglen o fwydo anifeiliaid gerllaw'r ffordd yn denu grwpiau o anifeiliaid i leoliadau bwydo rheolaidd, yn hytrach na gadael yr anifeiliaid i grwydro'r tir comin cyfan i chwilio am fwyd addas. Un o bryderon y rhai sy'n gyfrifol am gynnal tiroedd comin yw'r ffaith y bydd hyn yn newid tirwedd warchodedig tir comin, wrth i batrymau bwydo newid.

Mae rhyngweithio rhwng anifeiliaid a'r cyhoedd yn peri pryder hefyd. Nodwyd y mater hwn mewn erthygl [14] a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014. Dywedodd Cadeirydd Cymdeithas Cominwyr Gelligaer a Merthyr fod 7 ceffyl wedi marw yn dilyn gwrthdrawiad â cherbydau yn y 12 mis ers mis Ebrill 2016. Mae hyn yn parhau â'r duedd hanesyddol o 5 ceffyl yn cael eu lladd bob blwyddyn ar gyfartaledd mewn amgylchiadau tebyg.

Hefyd, mae'r Cominwyr wedi mynegi pryderon ynglŷn â chyflwyno rhywogaethau estron i'r amgylchedd drwy adael gwair fel bwyd. Gall gwair gynnwys hadau sy'n deillio o fathau o blanhigion estron, a gall yr hadau hyn dyfu ar dir comin. Mae pryderon tebyg wedi'u mynegi hefyd ynglŷn â'r mathau o fwyd sy'n cael eu cyflwyno i'r tir comin, a'r ffaith eu bod yn effeithio ar ofynion dietegol pob un o'r anifeiliaid sy'n byw ar y tir comin, nid dim ond y ceffylau. Hefyd, mae'n rhaid ystyried tarddiad unrhyw fwydydd sy'n cael eu cyflwyno i'r tir comin, o safbwynt dulliau ffermio a chyflwyno cemegion i ecosystem fregus.

ARGYMHELLIAD

Os oes achos o geffylau'n cael eu gadael ar dir comin wedi'i nodi, dylid rhoi mesurau ar waith i ddod o hyd i ateb cynaliadwy drwy gydweithio.

[14] Erthygl WalesOnline: Charity warning after pony death on common
http://www.walesonline.co.uk/news/local-news/charity-warning-after-pony-death-6881413

Ar sail y dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael i'r adolygiad hwn, mae'n glir bod angen canfod maint y broblem cyn y gellir cyflwyno neu weithredu unrhyw ateb hirdymor.

Mae angen rhoi camau ar waith i adnabod y ceffylau y gwyddys eu bod wedi'u gadael ar dir comin yng Nghymru, a chanfod perchnogion y ceffylau hyn. Os oes angen cymorth ar geffyl sydd wedi'i adael ar dir comin, yn y rhan fwyaf o achosion mae'r Cominwyr, gyda chymorth rhannol yr awdurdod lleol, yn derbyn cyfrifoldeb am les yr anifeiliaid hyn. Mae angen ystyried datblygu rhaglen gydweithredu er mwyn adnabod y ceffylau sydd wedi'u gadael, a throsglwyddo perchnogaeth i'r Cymdeithasau Cominwyr perthnasol.

Ar ôl adnabod y ceffylau a deall graddfa wirioneddol y broblem, bydd angen ystyried pob achos ymhellach er mwyn dod o hyd i ateb cynaliadwy. I wneud hyn, bydd angen i'r holl randdeiliaid gydweithio, gan gynnwys y meddianwyr tir, y perchennog tir, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a'r sector elusennol.

Mae'n hanfodol bwysig bod unrhyw ateb yn mynd i'r afael â bridio ar hap, a'i fod yn lleihau'r nifer fawr o geffylau ar rai tiroedd comin. Drwy fynd i'r afael â'r problemau hyn, bydd modd i rywogaethau cynhenid a reolir ddychwelyd i'r ardaloedd hyn maes o law.

## 7.5 AR Y SECTORAU GWIRFODDOL AC ELUSENNOL

Mae'r ffaith fod 62% o geffylau yr ymafaeliwyd ynddynt yng Nghymru wedi'u hailgartrefu mewn sefydliad yn ystod cyfnod 3 blynedd yr adolygiad yn dangos yn glir bod y sector elusennol a'r sector gwirfoddol o dan bwysau cynyddol.

Nid yw'r cyhoedd yng Nghymru na Lloegr eisiau gweld ceffylau yr ymafaelir ynddynt o dan y Deddfau Rheoli Ceffylau yn cael eu difa. Mewn achosion lle nad yw lles yn bryder o reidrwydd, gall y ceffylau fod yn iach fel arall. Gan fod Lloegr wedi grymuso perchnogion tir i ddefnyddio'r Ddeddf yn Lloegr, bu cynnydd yn nifer y beilïaid ceffylau sy'n ceisio ailgartrefu anifeiliaid yr ymafaeliwyd ynddynt gydag elusen yn hytrach na'u difa fel mater o drefn, er mwyn amddiffyn eu henw da.

Gan fod y lleoedd sydd ar gael mewn elusennau cofrestredig yn gyfyngedig iawn, mae'r sector gwirfoddol yn derbyn mwy o geffylau. Roedd un awdurdod lleol wedi gosod 309 o geffylau mewn sefydliad gwirfoddol yn ystod cyfnod 3 blynedd yr adolygiad.

Yn ôl World Horse Welfare, mae'n costio tua £1,200 ar gyfartaledd i ofalu am bob ceffyl sy'n cwblhau rhaglen ailgartrefu'r sefydliad.

Yn yr un modd, dywedodd Ymddiriedolaeth Ceffylau a Merlod Lluest ei bod yn costio rhwng £628 ac £828 i dalu am ofal sylfaenol y ceffylau yn ystod wyth wythnos gyntaf y rhaglen ailgartrefu.

Yn y ddau achos, mae'r costau a nodir yn cyfeirio at geffyl cyffredin, heb ystyried unrhyw gostau ychwanegol ar gyfer unrhyw bryderon iechyd posibl. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â staffio'r sefydliad chwaith.


# 8. LLWYBRAU GWAREDU AR GYFER CEFFYLAU YR YMAFAELIWYD YNDDYNT

Mae Adran 5 o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i awdurdod lleol waredu ceffyl drwy unrhyw sianel sydd ar gael, gan gynnwys ewthanasia. Mae Deddf Anifeiliaid 1971 yn caniatáu gwerthu ceffyl mewn marchnad neu arwerthiant cyhoeddus ar ôl 14 diwrnod, ond mae Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014 yn nodi bod holl sianeli gwaredu ond ar gael i'r awdurdod lleol hyd at 7 diwrnod ar ôl ymafael yn y ceffylau.

Mae Ffigur VII yn dangos manylion y sianeli gwaredu a ddefnyddiwyd ar gyfer yr holl geffylau yr ymafaeliwyd ynddynt o dan y Ddeddf. Mae ystadegau ar gyfer "symudwyd gan y perchennog" yn cyfeirio at ddigwyddiadau lle y caniatawyd ymafael mewn ceffylau ar y safle, y codwyd hysbysiadau, ac y symudwyd y ceffylau o'r tir yn unol â'r cyfnod hysbysu sylfaenol.

Roedd y saith ceffyl a gafodd eu dwyn wedi'u symud o'r cyfleuster cadw yn anghyfreithlon drwy ddefnyddio grym yn ystod y cyfnod ymafael.

Mewn cofnodion anghyflawn yn ymwneud â 10 ceffyl, mae'r llwybr gwaredu wedi'i nodi gan y term "heb ei gofnodi".




**Ffigur VII**. Llwybrau gwaredu ar gyfer ceffylau yr ymafaeliwyd ynddynt o dan y Ddeddf yn y tair blynedd ers ei chyflwyno

Hawliwyd gan y perchennog
Symudwyd gan y perchennog
Wedi'u dwyn
Wedi'u hailgartrefu mewn elusen
Wedi'u difa

Heb ei gofnodi

Mae'r data yn Ffigur VII yn dangos nad oedd 71% o'r ceffylau yr ymafaeliwyd ynddynt gan yr awdurdodau lleol wedi'u hawlio gan eu perchnogion, ac y gellid eu hystyried felly yn geffylau a oedd wedi'u gadael.

## 8.1 AILGARTREFU TRWY ELUSEN

Mae awdurdodau lleol wedi sefydlu sawl perthynas waith â sefydliadau ledled Cymru a Lloegr. Oherwydd natur rhai achosion, mae'r awdurdodau lleol wedi mynd ati i ailgartrefu ceffylau mewn elusennau y tu allan i'w hawdurdodaeth eu hunain, er mwyn lleihau unrhyw berygl o'r perchennog blaenorol yn dod o hyd i'r ceffyl sydd wedi'i ailgartrefu.

Dyma restr o rai o'r sefydliadau mwyaf poblogaidd y mae'r awdurdodau lleol wedi meithrin perthynas â nhw:

- Blue Cross, Swydd Rydychen
- Bransby Horses, Swydd Lincoln
- Hillside Animal Sanctuary, Norfolk
- The Horses Trust, Swydd Buckingham
- Horse World, Gwlad yr Haf
- Ymddiriedolaeth Ceffylau a Merlod Lluest, Sir Gaerfyrddin
- The Mare & Foal Sanctuary, Dyfnaint
- Only Foals & Horses, Swydd Gaerhirfryn
- Redwings, Norfolk
- Remus Memorial Horse Sanctuary, Essex
- Yr RSPCA, ledled y wlad
- Tettenhall Horse Sanctuary, Swydd Stafford
- World Horse Welfare, Norfolk

Mae tystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r adolygiad hwn wedi dangos bod prinder lleoedd ar gael yn y llochesi. Yn ôl yr RSPCA, er bod eu cyfleusterau'n gallu cartrefu tua 100 o geffylau, mae'r elusen yn cartrefu tua 700 o geffylau ar hyn o bryd, ac mae tua 600 ohonynt yn derbyn gofal gan gyfleusterau preifat.

Mae rhai o'r llochesi yn derbyn ceffylau sydd ag anghenion lles yn unig, sy'n lleihau nifer y lleoedd sydd ar gael ar gyfer ceffylau yr ymafaeliwyd ynddynt o dan y Ddeddf.

Er bod awdurdodau lleol yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy mewn llochesi er mwyn sicrhau y bydd anghenion lles ceffylau sydd wedi'u hailgartrefu yn cael eu diwallu yn y dyfodol, oherwydd lleoliad y sefydliadau perthnasol, mae'r gwaith hwn y tu allan i awdurdodaeth yr awdurdod lleol ei hun yn aml, ac mae'n cael ei drosglwyddo i swyddogion cymorth mewn awdurdod lleol arall.

Yn ôl ffigurau World Horse Welfare (WHW), mae gan Equine Crisis Group [15] gapasiti cyfunol o tua 2,500, a dim ond llond dwrn o leoedd sydd ar gael ar hyn o bryd. Fel y nodir yn y troednodyn, mae'r grŵp hwn yn cynnwys 5 o'r elusennau ceffylau mwyaf yn y DU. Er bod y grŵp

[15] Mae Equine Crisis Group yn cynnwys yr RSPCA, Horse World, Blue Cross, World Horse Welfare a Redwings

hwn o sefydliadau yn ceisio ailgartrefu'r holl geffylau sy'n cael eu derbyn, mae nifer o lochesi yn darparu cartref am oes i'r holl geffylau sy'n cyrraedd eu lloches.

Yn ôl ystadegau a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr adolygiad hwn, mae Hillside Animal Sanctuary yn gofalu am tua 1,850 o geffylau [16]. Bu ceffylau'n cyrraedd y lloches hon yn gyson, ac mae'r ffigur hwn wedi cynyddu o tua 1,000 ym mis Chwefror 2015.

Gan fod y rhan fwyaf o lochesi yn methu cynnig lleoedd ar gyfer ceffylau lluosog yn fyr rybudd, mae'n bosibl y bydd angen ystyried y mater o ddifa ceffylau.

Yn ystod yr adolygiad hwn, cyfeiriodd rhanddeiliaid at y mater o drwyddedu llochesi. Trafodwyd y mater hwn yng nghyfarfodydd grŵp y rhanddeiliaid, a chasglwyd safbwyntiau ar y mater. Mae casgliadau'r trafodaethau hyn yn dangos bod yna awydd clir i drwyddedu sefydliadau o'r fath, a nodwyd hyn gan y llochesi eu hunain a gan y rhanddeiliaid sy'n rhyngweithio â'r llochesi.

Mae adroddiad a baratowyd gan Rwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru ym mis Hydref 2012, sef "The case for the regulation of Animal Welfare Establishments in Wales", yn cyflwyno'r ddadl o blaid trwyddedu llochesi o'r fath.

O safbwynt ailgartrefu ceffylau drwy lochesi cymeradwy, mynegwyd pryderon ynglŷn â ffynhonnell ariannu cynllun o'r fath, yn ogystal â chysondeb trawsffiniol menter o'r fath. Mewn ardaloedd o Gymru lle mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda llochesi yn Lloegr ar hyn o bryd, mynegwyd pryderon na fyddai cynllun trwyddedu cenedlaethol yn cael ei fabwysiadu yn Lloegr o bosibl. Yn ogystal, gall unrhyw ofyniad i awdurdodau lleol ailgartrefu ceffylau drwy gynllun o'r fath gyfyngu ar y sianeli sydd ar gael i ailgartrefu ceffylau oddi mewn i ffiniau Cymru, gan eithrio'r sefydliadau mwyaf yn y sector elusennol o bosibl. Hefyd, mynegwyd pryderon ynglŷn â'r amserlen ar gyfer cymeradwyo a chyflwyno system drwyddedu ar lefel genedlaethol.

ARGYMHELLIAD

Mae angen cyhoeddi canllawiau sy'n argymell y dylai ceffylau gael eu hailgartrefu drwy aelodau'r Cyngor Lles Anifeiliaid (NEWC) yn unig.

Mae gan NEWC gyfanswm o 31 o aelodau lles ceffylau llawn, ac mae pob un yn darparu lloches, gofal seibiant neu wasanaeth adsefydlu ar gyfer ceffylau sy'n agored i niwed neu geffylau sydd wedi'u hachub. Fel rhan o'r broses gymeradwyo, mae NEWC yn arolygu pob aelod er mwyn sicrhau bod safonau lles yn cael eu cynnal a bod yr aelodau'n cydymffurfio â'r holl godau ymarfer a deddfau perthnasol. Hefyd, mae'n rhaid i sefydliadau sydd wedi'u cymeradwyo gan NEWC fod â statws elusen gofrestredig.

[16] Gwefan Hillside Animal Sanctuary: Who lives at Hillside in 2017… http://www.hillside.org.uk/livingathillside.htm

O safbwynt trwyddedu, byddai'r cyfyngiad i ailgartrefu ceffylau drwy elusen sydd wedi'i chofrestru â NEWC yn unig yn dileu'r gofyniad uniongyrchol i gyflwyno cynllun trwyddedu newydd ar gyfer y sefydliadau hyn, gan leihau'r effaith ar yr awdurdodau lleol a'r llochesi. Mae cynghorwyr arweiniol y sector wedi llunio'r amodau cymeradwy ar gyfer aelodau NEWC, a disgwylir y bydd angen arweiniad y cynghorwyr hyn wrth lunio unrhyw system drwyddedu. Felly, mae'n rhesymol dod i'r casgliad y byddai unrhyw system drwyddedu genedlaethol yn rhannu rhai o nodweddion amodau cymeradwy NEWC.

Sefydlwyd NEWC ym 1977, ac mae'r rhaglen aelodaeth les yn gynllun cenedlaethol cydnabyddedig. Ariennir a rheoleiddir y rhaglen gan aelodau NEWC yn ehangach. Er bod union nifer y sefydliadau sy'n cynnig lloches i geffylau sydd wedi'u gadael yn uwch o lawer na'r 31 sefydliad sy'n aelodau o NEWC, dylid ystyried y manteision a allai ddeillio o'r sefydliadau hyn yn ymuno â rhaglen genedlaethol gydnabyddedig. Mae gwaith y sefydliadau hyn yn amrywio o ailgartrefu ychydig o geffylau bob blwyddyn i ailgartrefu rhai cannoedd o geffylau.

Bydd y broses o ailgartrefu ceffylau yr ymafaeliwyd ynddynt drwy aelod NEWC cydnabyddedig yn sicrhau bod y strategaethau mynediad a gadael ar waith, a bod y safonau lles gofynnol yn cael eu bodloni a'u cynnal yn fwy hirdymor.

Er bod yr adolygiad hwn yn argymell y dylid ystyried defnyddio'r rhaglen aelodaeth NEWC sefydledig i fynd i'r afael â'r mater penodol hwn, nodir bod y sector elusennol wedi mynegi pryder ehangach ynglŷn â'r ddadl o blaid trwyddedu pob lloches anifeiliaid, a gyflwynwyd gan Rwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru yn ei adroddiad[17] ym mis Hydref 2012.

Amcan yr argymhelliad yn yr adolygiad hwn yw mynd i'r afael â'r sefyllfa yn ymwneud ag awdurdodau lleol yn sicrhau bod prosesau digonol a chadarn ar waith wrth ailgartrefu ceffylau, ac osgoi mynd i'r afael ag unrhyw faterion ehangach sydd y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn.

[17] "The case for the regulation of Animal Welfare Establishments in Wales" gan Rwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru, mis Hydref 2012: http://www.awnwales.org/wp-content/uploads/2013/03/AWE-report-final.pdf

## 8.2 GWERTHU CEFFYLAU TRWY FARCHNAD NEU ARWERTHIANT CYHOEDDUS

Cyn cyflwyno'r Ddeddf, yr unig ffordd o waredu ceffylau yr ymafaeliwyd ynddynt o dan Ddeddf Anifeiliaid 1971 oedd trwy farchnad neu arwerthiant cyhoeddus. Mae'r Ddeddf yn cadw'r dull gwaredu hwn.

Mae gwerth cyfartalog y mathau o geffylau sy'n cael eu gadael gan amlaf yn llai na'r gost sy'n gysylltiedig ag ymafael ynddynt, a nododd yr awdurdodau lleol fod y gofyniad i werthu'r anifeiliaid drwy arwerthiant cyhoeddus yn arwain at gostau ychwanegol. Os nad yw amseriad ymafael mewn ceffylau a'r cyfnod ymafael yn cyd-fynd â dyddiad arwerthiant cyhoeddus, byddai'r awdurdod lleol yn gorfod ysgwyddo costau stablau hurio ychwanegol, nes bod arwerthiant neu farchnad addas ar gael. Yn yr un modd, os nad yw ceffyl yn cael ei werthu mewn marchnad, ni fydd yr awdurdod lleol yn gallu gwaredu'r ceffyl, a byddai'n rhaid iddo ysgwyddo costau cludiant a stablau hurio ychwanegol nes bod marchnad yn cael ei chynnal.

Fel mae Astudiaeth Achos H yn ei dangos, weithiau mae unigolyn sy'n gyn-berchennog y ceffylau yn prynu anifeiliaid o'r marchnadoedd ac yn mynd â nhw'n ôl i Gymru fel rhan o gylch parhaus.

Mae tystiolaeth gan yr awdurdodau lleol yn dangos yn glir nad oes unrhyw geffyl yr ymafaeliwyd ynddo o dan y Ddeddf wedi'i waredu drwy farchnad gyhoeddus.

## 8.3 DIFA CEFFYLAU

Mae difa ceffylau yn gostus ac yn amhoblogaidd ymysg y cyhoedd, felly ailgartrefu ceffylau yw'r dull gwaredu o ddewis bob tro. Yn ystod yr adolygiad hwn, pan ddaeth gwybodaeth am ymafael mewn ceffylau ar Gomin Manmoel yn eiddo cyhoeddus, dechreuwyd ymgyrch yn y cyfryngau cymdeithasol oherwydd pryderon ynglŷn â'r posibilrwydd o ddifa'r ceffylau. Yn ôl un o'r awdurdodau lleol a oedd yn ymwneud ag ymafael mewn ceffylau yn yr achos hwn, bu'n rhaid i swyddogion yr awdurdod dreulio mwy o amser yn mynd i'r afael ag effeithiau'r ymgyrch yn y cyfryngau cymdeithasol nag ymafael yn y ceffylau a'u symud.

Er bod y mater hwn yn un emosiynol iawn, a bod pob sector yn awyddus i'w osgoi, mae angen ystyried y dewisiadau amgen a pha mor ymarferol ydynt. Gyda nifer fawr o geffylau wedi'u gadael ar dir comin heb unrhyw geidwad neu berchennog hysbys, mae'n rhaid ystyried eu cyrchfan yn y pen draw.

Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori wreiddiol[18], roedd capasiti'r sector elusennol yn llawn cyn cyflwyno'r Ddeddf, ac er bod awdurdodau lleol wedi gallu ailgartrefu ceffylau drwy elusennau yn sgil cyflwyno'r Ddeddf, mae'n amlwg nad oes digon o leoedd yn y sector i fodloni'r galw.

Ar ôl trafod y dewis o ddifa ceffylau â chynrychiolwyr o awdurdodau lleol, mae'n amlwg iawn hefyd bod yr unigolion sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau terfynol yn amharod iawn i ddifa ceffyl drwy ewthanasia, oni bai bod angen gwneud hynny am resymau les neu os yw pob dewis arall wedi'i ddisbyddu'n gyfan gwbl.

Mae'r gost o ddifa ceffyl yn gyfwerth â thua phythefnos o gostau stablau hurio, felly os oes prinder lleoedd ar gael mewn elusennau hygyrch, gall cyfyngiadau ariannol wneud y dull gwaredu hwn yn fwy derbyniol.

[18] Dogfen Ymgynghori ar y Ddeddf: http://gov.wales/docs/drah/consultation/130308fly-grazing-consultation-en.pdf

## 8.4 AILGARTREFU CEFFYLAU'N UNIONGYRCHOL Â'R CYHOEDD

Un o ystyriaethau allweddol yr adolygiad hwn yw'r mater o ailgartrefu ceffylau'n uniongyrchol gyda'r cyhoedd. Mae awdurdodau lleol wedi mynegi pryderon ynglŷn â'r dull gwaredu hwn, oherwydd yr adnoddau sydd eu hangen i sicrhau llesiant y ceffylau yn fwy hirdymor.

Am y rheswm hwn, er bod awdurdodau lleol yn deall bod y cyhoedd yn awyddus i ddangos tosturi a helpu ceffylau y mae awdurdodau lleol wedi ymafael ynddynt, mae pob un o'r awdurdodau lleol yn credu y dylai'r cyhoedd fynd at elusen ailgartrefu gydnabyddedig os ydynt am roi cartref i geffyl.

Mewn nifer o achosion proffil uchel yn ystod cyfnod yr adolygiad, mae'r cyhoedd wedi mynegi eu pryderon, gan lunio deisebau a llythyrau o fwriad sy'n datgan eu dymuniad i ailgartrefu ceffylau sydd wedi'u gadael, yn hytrach na bod y ceffylau'n cael eu difa. Er bod bwriadau'r cyhoedd yn dda yn aml, dywedodd pob un o'r awdurdodau lleol yn ystod yr adolygiad hwn y byddent ond yn defnyddio elusennau a llochesi pwrpasol i ailgartrefu ceffylau oherwydd rhesymau lles, effeithlonrwydd ac atebolrwydd, er gwaetha'r ffaith fod y Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwerthu neu drosglwyddo ceffylau'n uniongyrchol i berchnogion preifat.

Nodwyd nifer o resymau am ddewis gweithredu yn y modd hwn. Rhoddir ystyriaeth i les yr anifeiliaid perthnasol, ac i'r ffaith fod modd symud unrhyw geffyl i loches bwrpasol gan wybod y bydd yn derbyn y driniaeth filfeddygol briodol ar ôl cyrraedd. Er na fydd yn amlwg yn y dechrau bod unrhyw gyflwr clinigol ar geffyl yr ymafaeliwyd ynddo, mae elusennau lles yn cydnabod bod effeithiau ffordd o fyw flaenorol ceffyl yn dechrau dod i'r amlwg yn aml ar ôl wythnosau cyntaf unrhyw gyfnod adsefydlu. Os yw'r ceffyl wedi dioddef diet gwael neu bla parasitiaid, bydd y problemau hyn yn dechrau amlygu eu hunain, ac mae'n rhaid chwilio am y driniaeth filfeddygol gywir. Gall hon fod yn broses ddrud yn aml.

Bydd rhai ceffylau'n destun erlyniad, a bydd y broses o'u hailgartrefu drwy sefydliad elusennol o bell yn sicrhau elfen o anhysbysrwydd. Mae'n bosibl na fydd modd sicrhau hyn os yw'r ceffyl yn cael ei ailgartrefu gydag unigolyn preifat sy'n byw yn yr un ardal â'r perchennog blaenorol.

Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau elusennol yn credu y bydd ceffyl sy'n cael ei ailgartrefu drwy sefydliad wedi cael archwiliad milfeddygol ac ymddygiadol priodol ar draul yr elusen. Hefyd, dywedodd yr elusennau fod y rhai sy'n dymuno mabwysiadu neu ailgartrefu ceffyl yn cael eu gwirio'n briodol, a bod cymorth ar gael ar ôl y broses fabwysiadu.

Mae awdurdodau lleol wedi datgan na fyddai'r adnoddau i gynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar gartrefi posibl ar gyfer ceffylau yr ymafaeliwyd ynddynt ar gael yn yr amgylchedd cyllido presennol.

ARGYMHELLIAD

Dylid annog awdurdodau lleol i ailgartrefu ceffylau yr ymafaeliwyd ynddynt drwy'r sector elusennol ac nid yn uniongyrchol i'r cyhoedd.

Er mwyn parhau i fod yn ddienw, mae'n bosibl na fydd sefydliadau elusennol penodol eisiau cael eu henwi yn y canllawiau hyn, gan roi ystyriaeth i hyrwyddo'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y grŵp cyfunol a sefydlwyd gan NEWC.

# 9. Y COSTAU SY'N CAEL EU HYSGWYDDO

Mae cyfrifoldebau awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag achosion o bori ceffylau'n anghyfreithlon, ceffylau'n crwydro a cheffylau'n cael eu gadael yn eu prif ardaloedd, yn enwedig felly awdurdodau lleol sydd â phroblemau arwyddocaol a chyson, yn gallu arwain yn anochel at gostau mawr drwy fynd i'r afael ag achosion unigol a rhoi camau dilynol priodol ar waith. Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol, hyd yn oed os na fydd angen iddo ddefnyddio'r Ddeddf yn aml, fod â phrotocolau ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw achosion.

## 9.1 RHANNU A DYRANNU ADNODDAU

O ganlyniad i'r dirwasgiad economaidd a'r mesurau cyni sydd ar waith o hyd, mae'r adnoddau a'r cyllid sydd ar gael i bob sector wedi lleihau, felly mae dyrannu'r adnoddau pwysig hyn yn allweddol.

Yn ystod yr adolygiad, dywedodd yr awdurdodau lleol a ymatebodd nad ydynt yn gweithredu fel arfer oni bai bod yna berygl i ddiogelwch y cyhoedd, hynny oherwydd cyfyngiadau ariannol. Os yw'r prif bryder yn ymwneud â lles, mae'r achosion hyn yn cael eu datrys fel arfer gan sefydliadau yn y sector elusennol, fel Redwings, yr RSPCA a World Horse Welfare. Ceir tystiolaeth o gydweithio mewn achosion sydd ag elfen o orgyffwrdd, neu os oes angen i'r awdurdod lleol ymyrryd oherwydd graddfa'r broblem. Mae Astudiaethau Achos A a B yn amlygu achosion o'r fath, lle mai cydweithio amlasiantaeth oedd yr allwedd i ganlyniad llwyddiannus.

## 9.2 YMAFAEL MEWN CEFFYLAU

Ymhlith holl awdurdodau lleol Cymru, dim ond Dinas a Sir Abertawe sydd â'r adnoddau i ymafael mewn ceffylau a'u cadw fel mater o drefn. Dywedodd yr holl awdurdodau lleol eraill eu bod naill ai'n trefnu bod contractwr allanol yn gwneud y gwaith neu'n gweithio gyda sefydliad elusennol i ymafael yn y ceffylau. Os yw contractwr allanol yn cael ei ddefnyddio, mae cost y broses o ymafael yn y ceffylau yn dibynnu ar yr amgylchedd ac ar sefyllfa bresennol y ceffylau.

Dywedodd Cyngor Sir Powys mai'r elusennau perthnasol, sef yr RSPCA a Redwings, oedd yn gyfrifol am holl gostau unig achos y Cyngor o ymafael mewn 12 ceffyl o dan y Ddeddf. Roedd yr awdurdod lleol yn gyfrifol am ei gostau staffio mewnol ei hun, sef 14 awr o amser swyddogion (tua £340).

Mae costau contractwyr yn amrywio rhwng awdurdodau lleol, ac mae'n costio rhwng £150 a £200 ar gyfartaledd i gasglu a chadw ceffyl. Os oes pryderon ynglŷn â diogelwch y rhai sy'n gyfrifol am ymafael mewn ceffylau, mae'n bosibl y bydd angen staff ychwanegol, sy'n cynyddu'r gost gyffredinol.

Os oes contractwr allanol yn gyfrifol am ymafael mewn ceffyl a'i gadw, mae'n hawdd priodoli'r costau penodol ym mhob achos, a bydd y ffioedd yn cael eu trosglwyddo i'r perchennog os oes modd ei adnabod. Nid yw costau mewnol sy'n gysylltiedig ag achos o ymafael mewn ceffyl, fel amser swyddogion, yn cael eu cyfrifo a'u trosglwyddo i'r perchnogion fel mater o drefn. Yn Ninas a Sir Abertawe, codir tâl sefydlog o £168 a ffi ychwanegol o £53 ar bob perchennog am bob diwrnod yn y cyfleuster cadw ceffylau.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn amcangyfrif bod dau achos o ymafael mewn ceffylau o dan y Ddeddf (ymafaeliwyd mewn 5 ceffyl) wedi costio tua £1,300. Unig achos arall yr awdurdod lleol hwn oedd y fenter ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn ymwneud â Chomin Manmoel, a gostiodd tua £6,000. Cynigiodd Llywodraeth Cymru gymorth ariannol yn yr achos hwn, gan gyfrannu £3,500 tuag at y gost o ymafael yn y ceffylau fel rhan o gynllun arian cyfatebol.

## 9.3 HWSMONAETH

Er bod rhai awdurdodau lleol yn cadw ffald ar gyfer anifeiliaid, mae yna nifer o ystyriaethau yn gysylltiedig â'r cyfleusterau hyn. Oherwydd natur yr anifeiliaid yr ymafaeliwyd ynddynt yn hanesyddol, mae rhai o'r ffaldau wedi'u cynllunio i gadw anifeiliaid eraill sy'n crwydro, fel defaid, ac nid ydynt yn addas i gadw ceffylau am gyfnodau hir. Gan fod adnoddau'n brin, nid yw rhai awdurdodau lleol yn gallu ymateb i ofynion staffio ffaldau oherwydd natur ad-hoc yr achosion o ymafael mewn ceffylau.

Os oes angen ymafael mewn llawer iawn o geffylau, nid oes gan unrhyw awdurdod lleol unrhyw gyfleuster parhaol i gadw nifer fawr o geffylau. Yn y sefyllfa hon, byddai angen i gontractwr allanol hwyluso'r broses o gadw'r ceffylau hyn dros dro.

Mewn achosion lle mae perchennog yn anfodlon ildio perchnogaeth o'i geffylau, neu yn wir dalu am eu cael yn ôl, mae'n bosibl y bydd yn cymryd camau i ryddhau'r ceffylau o'r ffald ddiogel, gan achosi difrod troseddol yn y broses.

Ym mis Ionawr 2017, ymafaeliodd un awdurdod lleol mewn 6 cheffyl, a'u rhoi yn ffald yr awdurdod lleol. Yn ôl yr awdurdod lleol, ceisiodd unigolion ryddhau'r ceffylau o'r ffald y noson ganlynol. Ar ôl methu cael mynediad, aeth yr unigolion ati i ddifrodi un o gerbydau'r awdurdod lleol.

Oherwydd yr ystyriaethau uchod, mae awdurdodau lleol yn defnyddio gwasanaethau contractwyr allanol, lle mae modd amrywio lleoliad y cyfleusterau sy'n cael eu defnyddio er mwyn sicrhau diogelwch y ceffylau a'r staff perthnasol.

Costau stablau hurio ar gyfer y ceffylau hyn yw rhwng £10 a £15 y noson fel arfer. Hefyd, mae angen ystyried y posibilrwydd o gostau cludo uwch, gan ei bod yn bosibl y bydd y cyfleuster sy'n cael ei ddewis y tu allan i ardal yr awdurdod lleol oherwydd argaeledd neu ddiogelwch.

## 9.4 AILGARTREFU

Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili y byddai angen talu costau cysylltiedig o tua £260 i elusen er mwyn ymafael mewn 3 cheffyl, a'u hailgartrefu, ym mis Rhagfyr 2016. Roedd y swm hwn yn cynnwys costau allanol a ysgwyddwyd yn uniongyrchol gan yr elusen, gan gynnwys y gost o adnabod a chreu pasbort a microsglodyn ar gyfer y ceffylau yr ymafaeliwyd ynddynt.

Yn yr achos penodol hwn, bu'n rhaid talu tua £960 am gyfraniad y contractwr, a £500 ychwanegol i dalu costau mewnol yr awdurdod lleol.

Mewn achosion lle mae ceffylau'n cael eu hailgartrefu, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod gan awdurdodau lleol brotocolau i gynnig cyllid i'r lloches fel mater o drefn er mwyn gofalu am y ceffylau.

Yn ôl Erthygl 4 o'r EIWR (2009), mae'n rhaid rhoi pasbort i'r perchennog newydd adeg trosglwyddo perchnogaeth. Mewn achosion lle nad oes microsglodyn neu basbort dilys ar gael, mae cofrestri'r awdurdodau lleol yn dangos bod rhai awdurdodau lleol yn mynd ati weithiau i dalu am ficrosglodyn a phasbort ar gyfer y ceffylau, cyn eu trosglwyddo.

Mae'n costio tua £10 i ficrosglodynnu ceffyl, heb gynnwys cost unrhyw ymweliad gan filfeddyg. Mae pasbort hunaniaeth sylfaenol ar gyfer ceffyl yn costio tua £25.

## 9.5 NIFER YR ACHOSION GORFODI A ARWEINIODD AT DROSGLWYDDO COSTAU I BERCHNOGION

Bu’n rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ymdrin ag un achos yn unig o dan y Ddeddf lle y daeth perchennog ymlaen i hawlio ceffyl yr ymafaeliwyd ynddo. Yn yr achos hwn, cyfrifodd yr awdurdod lleol y ddirwy i gynnwys costau’r contractwr allanol. Mae’r costau hyn yn cynnwys y gost o ymafael yn y ceffyl, y ffioedd stablau hurio a’r gost o wneud cais am basbort a microsglodynnu ceffyl os nad yw’r ceffyl wedi’i adnabod ynghynt.

Mae’r polisi hwn o gyfrifo costau ar waith yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, ac mae perchnogion ond yn gorfod talu costau allanol sy’n deillio o’r gwaith ymafael yn y ceffylau.

Roedd Cyngor Dinas Caerdydd yn gallu darparu ystadegau cyfyngedig yn ymwneud â’r cyfnod rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2016. Yn ystod y cyfnod hwn, codwyd tâl ar bob un o’r 49 o berchnogion a gafodd eu ceffylau yn ôl (30% o’r holl geffylau yr ymafaeliwyd ynddynt) cyn rhyddhau’r ceffylau. Mewn achos arall yn ardal Cyngor Dinas Caerdydd yn ystod Hydref 2016, daethpwyd o hyd i berchennog, ond ni allai dalu’r ffi i ryddhau a dychwelyd y ceffylau. Yn yr achos hwn, gan na allai’r perchennog dalu’r ddirwy, gwaredwyd y ceffylau drwy sefydliad elusennol.

Dinas a Sir Abertawe yw’r unig awdurdod lleol sy’n codi tâl sefydlog ar berchnogion i hawlio ceffyl. Yn yr ardal hon, codir tâl o £168, a £53 am bob diwrnod wedyn.

Yn ôl tystiolaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, dim ond un digwyddiad a gofnodwyd o dan y Ddeddf a arweiniodd at ddychwelyd ceffyl i’r perchennog. Yn yr achos hwn, casglwyd ffi am £180 gan y perchennog.

Oherwydd natur y systemau a ddefnyddir i gofnodi’r costau sy’n cael eu trosglwyddo i berchnogion, natur sensitif y wybodaeth hon, a’r wybodaeth gyfyngedig sydd ar gael yng nghofrestri’r awdurdodau lleol, ni allai’r rhan fwyaf o awdurdodau lleol ddarparu ffigurau cywir.

## 9.6 NIFER YR ACHOSION O BERCHNOGION YN CWESTIYNU'R COSTAU

Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys unrhyw fesur statudol yn ymwneud â sut i godi anghydfod â'r awdurdod lleol. Nid oes gofyniad yn y Ddeddf chwaith i gofnodi nifer yr achosion lle mae perchennog wedi cwestiynu'r ddirwy a oedd yn daladwy er mwyn rhyddhau'r ceffylau yr ymafaeliwyd ynddynt.

Pan fydd ffi yn cael ei chasglu, mae'r awdurdodau lleol yn nodi bod y rhan fwyaf o berchnogion yn amharod i dalu'r anfoneb, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn cwestiynu'r costau.

Os yw'r perchennog yn credu bod y costau wedi'u cyfrifo'n annheg, mae'r awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r mecanwaith yn y Ddeddf sy'n galluogi'r perchennog i godi'r anghydfod gyda Gweinidogion Cymru.

Mae un achos wedi'i atgyfeirio i Weinidogion Cymru ers cyflwyno'r Ddeddf. Mae manylion yr achos hwn i'w gweld yn Astudiaeth Achos G.

Gwrthodwyd yr achos hwn gan Weinidogion Cymru gan fod yr apêl i ystyried ffioedd cysylltiedig wedi'i chyflwyno gan y perchennog y tu allan i'r cyfnod apelio 7 diwrnod statudol.

# 10. ADOLYGU AMSERLENNI PENODOL YN Y DDEDDF

Mae'r Ddeddf yn pennu nifer o gyfnodau amser y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw wrth gyflawni tasgau penodol o dan y Ddeddf. Yn ystod yr adolygiad, aseswyd addasrwydd y cyfnodau amser hyn.

## 10.1 CODI HYSBYSIADAU YMAFAEL O FEWN 24 AWR I YMAFAEL MEWN CEFFYLAU

Ar ôl ymafael mewn ceffyl, gellir symud y ceffyl neu ei adael yn ei leoliad presennol. Yn y naill achos neu'r llall, os nad yw'r perchennog neu ei gynrychiolydd yn bresennol adeg ymafael yn y ceffyl, nid oes unrhyw dystiolaeth ar gael i gadarnhau i'r perchennog bod y broses o ymafael yn y ceffyl ar waith, nes bod yr hysbysiadau hyn wedi'u codi.

Mewn achos lle mae ceffylau'n cael eu symud o'r lleoliad lle yr ymafaeliwyd ynddynt, ar hyn o bryd mae gan awdurdod lleol 24 awr i fynd ati i godi hysbysiad a rhoi gwybod i'r perchennog am y camau sydd angen eu cymryd er mwyn hawlio'r ceffylau yn ôl. Mae'r Ddeddf yn datgan bod yn rhaid i'r perchennog hawlio ceffylau yn ystod cyfnod hysbysiad ymafael sylfaenol o 7 diwrnod, a gan ei bod yn bosibl y bydd oedi am 24 awr cyn arddangos yr hysbysiadau hyn, byddai'r cyfnod hysbysu'n cael ei leihau i 6 diwrnod yn ymarferol.

ARGYMHELLIAD

Dylid dileu'r amserlen ar gyfer codi hysbysiadau ymafael, a'i ddisodli â gofyniad i godi hysbysiadau ymafael wrth ymafael mewn ceffylau.

Gan y bydd cynrychiolydd o'r awdurdod lleol yn mynychu'r lleoliad er mwyn ymafael yn y ceffylau, byddai'n rhesymol ei gwneud yn ofynnol arddangos yr hysbysiadau ar yr adeg hon, gan leihau'r cyfnod 24 awr hwn i ofyniad yn syth.

## 10.2 HYSBYSIAD YSGRIFENEDIG CWNSTABL YR HEDDLU O FEWN 24 AWR I YMAFAEL MEWN CEFFYL

Oherwydd natur yr hysbysiad hwn, er y gall yr heddlu fynychu rhai achosion o ymafael mewn ceffylau, mae tystiolaeth yr adolygiad hwn yn dangos nad yw hynny'n digwydd yn aml.

Oherwydd problemau ymarferol yn ymwneud â hysbysu cwnstabl yr heddlu ar ffurf ysgrifenedig, byddai'n anymarferol lleihau'r cyfnod amser ar gyfer cyflwyno'r hysbysiad hwn. Mae rhai achosion o ymafael mewn ceffylau'n digwydd y tu allan i oriau busnes arferol, ac mae'n bosibl y byddai angen i'r unigolion perthnasol aros am 12 awr cyn bod swyddog lleol ar gael.

Yn ystod yr adolygiad hwn, awgrymwyd y dylid dileu'r gofyniad hwn i hysbysu swyddog yr heddlu fel gofyniad statudol, gan ei fod yn cael ei ystyried yn gam biwrocrataidd, diangen.

Mae'r gofyniad i awdurdodau lleol hysbysu swyddog yr heddlu yn sicrhau atebolrwydd am gamau gweithredu o dan y Ddeddf, ac yn sicrhau bod cofnod annibynnol yn bodoli ynghylch ymafael mewn unrhyw geffyl. Mae'r mesur hwn yn diogelu'r rhai sy'n rhoi'r Ddeddf ar waith, yn ogystal â pherchnogion y ceffylau a'u ceffylau.

ARGYMHELLIAD

Dylid cadw'r angen i hysbysu swyddog yr heddlu ymhen 24 awr i ymafael mewn ceffylau.

## 10.3 HYSBYSIAD YSGRIFENEDIG I'W ROI I'R RHAI SY'N HONNI BOD YN BERCHENNOG, NEU EU CYNRYCHIOLYDD, O FEWN 24 AWR I GYFLWYNO HAWLIAD

Mae angen ystyried ymarferoldeb y gofyniad hwn mewn achosion lle mae angen cyflwyno dogfen ysgrifenedig o fewn 24 awr.

Yn ôl tystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad hwn, mae hysbysiadau'n cael eu harddangos yn unol â'r Ddeddf mewn achosion o ymafael mewn ceffylau. Mae'r hysbysiadau hyn yn cynnwys manylion cyswllt, gan gynnwys rhif ffôn. Pan fydd y rhai sy'n honni bod yn berchennog ceffyl, neu eu cynrychiolydd, yn cysylltu â'r awdurdod lleol dros y ffôn, mae'n bosibl na fydd modd rhoi dogfen ysgrifenedig i'r unigolyn hwn o fewn y cyfnod 24 awr gofynnol.

Yn ystod yr adolygiad hwn, daeth yn amlwg bod cyfathrebu dros y ffôn, drwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy ddulliau eraill mwy anffurfiol wedi bod yn hollbwysig wrth geisio penderfynu pwy sy'n berchen ar geffylau yr ymafaeliwyd ynddynt. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'n ymddangos na fyddai modd anfon hysbysiad ysgrifenedig bob amser.

ARGYMHELLIAD

Dylid cynyddu'r gofyniad i ddarparu hysbysiad ysgrifenedig o fewn 24 awr, er mwyn darparu ar gyfer ystyriaethau clerigol safonol.

Os nad oes gan berchennog a nodir fynediad i system e-bost, dylid pennu bod angen i gyfathrebu ysgrifenedig fod ar ffurf llythyr sydd wedi'i bostio neu gyswllt personol â'r perchennog. Os yw'r llythyr hwn yn cael ei bostio ar ddiwedd yr wythnos waith, bydd yn briodol rhagdybio na fydd modd gwarantu dosbarthu'r llythyr tan ddechrau'r wythnos ganlynol. Am y rheswm hwn, mae'r adolygiad yn argymell y dylid cynyddu'r gofyniad i hysbysu'r perchennog o 24 awr i gyfnod mwy cyraeddadwy, fel 3 diwrnod gwaith.

Mae Adran 5 (2) yn datgan mai'r "diwrnod perthnasol" yw diwrnod cyflwyno'r hysbysiad. Drwy ymestyn y terfyn amser hwn o 24 awr i 3 diwrnod gwaith, yn y rhan fwyaf o achosion, lle mae perchennog yn bresennol neu yn y cyffiniau, ni fyddai angen ystyried unrhyw beth arall. Mewn achosion lle mae angen anfon llythyr ffurfiol, byddai'n sicrhau bod yr awdurdod lleol yn gallu cydymffurfio'n llawn â thelerau'r Ddeddf, a darparu tystiolaeth i gefnogi hyn.

Gan fod negeseuon e-bost yn cael eu defnyddio'n aml i gyfathrebu â pherchnogion, dylai pob awdurdod lleol geisio cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig yn unol â'r cyfnod 24 awr presennol. Dim ond mewn amgylchiadau arbennig y dylid ymestyn y cyfnod i 3 diwrnod gwaith, ac unig ddiben yr argymhelliad hwn i ymestyn y cyfnod yw hwyluso cydymffurfiaeth yn yr amgylchiadau hyn.

## 10.4 MAE'N RHAID CADW CEFFYLAU AM GYFNOD YMAFAEL SYLFAENOL O 7 DIWRNOD

Mae Adran 5 (1) o'r Ddeddf yn datgan mai'r cyfnod ymafael sylfaenol yw 7 diwrnod, a bod modd gwaredu ceffyl ar ôl hynny.

Mae modd rhannu adborth rhanddeiliaid yn ddau grŵp ar wahân. Mae awdurdodau lleol sy'n mynd ati i ymafael mewn ceffylau a'u symud o'u lleoliad presennol, gyda chymorth contractwr allanol fel arfer, yn credu bod y cyfnod hysbysu 7 diwrnod yn ddigonol.

Mae'r amserlen bresennol ar gyfer ymafael mewn ceffylau wedi arwain at gyfanswm o 28% o'r holl geffylau yr ymafaeliwyd ynddynt yn dychwelyd at eu perchnogion. Yn yr achosion hyn, dim ond 3% o'r ceffylau a gafodd eu symud o'r lleoliad gwreiddiol gan y perchennog ar ôl i'r hysbysiad ymafael gael ei osod.

Mae rhanddeiliaid sy'n fwy tebygol o ymafael mewn ceffylau yn y lleoliad yn awyddus i leihau'r cyfnod hysbysu yn unol â'r drefn o dan y Ddeddf yn Lloegr, sy'n pennu cyfnod hysbysu o 96 awr, neu 4 diwrnod. Pryder rhanddeiliaid yn y cyswllt hwn yw bod 7 diwrnod yn rhoi 6 diwrnod o bori am ddim i berchennog ceffyl ar ôl dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad. Credir bod y perchennog yn Astudiaeth Achos B yn manteisio ar gyfnodau hysbysu i'r perwyl hwn.

Yn ôl adborth gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn dilyn y broses o ymafael mewn ceffylau ar Gomin Manmoel, ni fydd y fethodoleg hon yn cael ei defnyddio eto, oherwydd pwysau gan y cyhoedd a'r effaith ar adnoddau. Mae'r awdurdod lleol yn credu bod y penderfyniad i adael y ceffylau yn y lleoliad am 7 diwrnod wedi rhoi cyfle i'r cyhoedd amharu ar y broses o heidio a chadw'r ceffylau ar ddiwedd y cyfnod ymafael. Dywedodd yr awdurdod lleol na fyddai'n gweithredu eto yn y dyfodol oni bai bod yr holl geffylau'n cael eu symud o'r lleoliad a'u cadw mewn lleoliad diogel am y cyfnod gofynnol, er mwyn lleihau'r perygl o wrthdystio cyhoeddus adeg ymafael mewn ceffylau.

ARGYMHELLIAD

Dylai'r cyfnod ymafael sylfaenol o dan y Ddeddf, cyn gwaredu unrhyw geffyl, aros yn 7 diwrnod.

Fel mae Tabl II yn ei ddangos, mae'n cymryd 18 diwrnod ar gyfartaledd i awdurdodau lleol ailgartrefu ceffyl, felly byddai lleihau'r cyfnod ymafael sylfaenol ymhellach yn gallu cael effaith negyddol ar allu'r awdurdod lleol i weithredu. Er enghraifft, pe bai'r cyfnod ymafael yn cael ei leihau i 4 diwrnod, oherwydd yr amser sydd ei angen i drefnu ailgartrefu'r anifail, gall y dewis hwn fod yn llai deniadol os oes dewis ar gael i ddifa'r ceffyl.

## 10.5 MAE'N RHAID CYFLWYNO CWYNION YN YMWNEUD Â FFIOEDD I WEINIDOGION CYMRU MEWN 7 DIWRNOD

Yn ôl tystiolaeth a ddarparwyd yn ystod yr adolygiad hwn, dim ond un achos sydd wedi'i gofnodi o berchennog yn cyflwyno cwyn i Weinidogion Cymru yn ystod y 3 blynedd ers cyflwyno'r Ddeddf. Mae hyn er gwaethaf adroddiadau bod y rhan fwyaf o berchnogion yn anghytuno â'r awdurdod lleol yn y lle cyntaf ynglŷn â'r costau sy'n gysylltiedig ag ymafael mewn ceffylau.

Dylid ystyried y ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau perchnogion i beidio â chyflwyno cwynion i Weinidogion Cymru. Gall y ffactorau hyn gynnwys y gofyniad i gyflwyno cwyn ar ffurf ysgrifenedig, neu bryder y bydd cost unrhyw achos ymafael mewn ceffylau yn cynyddu adeg ystyried y gŵyn.

Yn ôl Adran 7 (7) o'r Ddeddf, os yw perchennog yn cwestiynu'r costau a godwyd, ni all yr awdurdod lleol waredu'r ceffyl nes bod yr anghydfod wedi'i ddatrys.

ARGYMHELLIAD

Mae angen diweddaru Adran 7 (7) o'r Ddeddf fel bod modd dychwelyd ceffyl i berchennog os yw Gweinidogion Cymru wedi'u hysbysu am anghydfod, ar yr amod bod y swm sy'n ddyledus yn cael ei dalu cyn rhyddhau'r ceffyl.

Mae Adran 4 (2) yn nodi na fydd ceffyl yn cael ei ddychwelyd i berchennog hyd nes y bydd unrhyw gostau a ysgwyddwyd wedi eu talu. Felly, dylai Adran 7 (7) ddarparu ar gyfer dychwelyd ceffyl ar yr amod bod y costau wedi'u talu, waeth a oes cwyn wedi'i chyflwyno i Weinidogion Cymru. Hefyd, byddai dychwelyd y ceffyl i'r perchennog yn sicrhau nad yw unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chadw'r ceffyl yn parhau i gynyddu wrth geisio dod i benderfyniad terfynol.

Ym marn yr adolygiad hwn, os yw perchnogion tir yn defnyddio darpariaethau'r Ddeddf drwy system rheoli digwyddiadau unedig, mae angen cynnwys mecanwaith fel bod perchennog ceffyl yn gallu cwestiynu'r costau sy'n gysylltiedig â'r broses ymafael. Dylid cyflwyno cwynion o'r fath i'r awdurdod lleol yn y lle cyntaf, gan nad yw cysylltu'n uniongyrchol â Gweinidogion Cymru ynglŷn ag anghydfod sifil yn ddefnydd effeithlon o adnoddau.

## 10.6 AMSERLENNI ERAILL YN YMWNEUD Â'R DDEDDF

O dan delerau'r Ddeddf, pan fydd ceffyl yr ymafaeliwyd ynddo yn cael ei werthu, mae'r enillion o'r gwerthiant, llai unrhyw dreuliau sy'n gysylltiedig ag ymafael yn y ceffyl, yn daladwy i'r perchennog gwreiddiol, lle bo modd dod o hyd iddo. Dylid ystyried yr amserlen ar gyfer hawlio perchnogaeth ceffyl a dychwelyd enillion o unrhyw werthiant.

Ychydig iawn o werth ar y farchnad sydd i geffyl sy'n pori'n anghyfreithlon, yn crwydro neu sydd wedi'i adael, sy'n golygu nad yw gwaredu ceffyl drwy werthiant cyhoeddus yn ddewis hyfyw.

Os yw perchnogion tir preifat yn defnyddio darpariaethau'r Ddeddf drwy system rheoli digwyddiadau unedig, ac yn ceisio adennill costau trwy werthiant preifat yn hytrach nag arwerthiant cyhoeddus, gall ceffyl a fyddai wedi cael ei ddifa yn y pen draw gael ei werthu fel ceffyl marchogaeth, a bydd mwy o werth ariannol iddo o bosibl.

Os yw perchennog tir preifat yn gwerthu ceffyl sydd wedi'i adael am elw, nid oes unrhyw derfyn amser ar hyn o bryd ar gyfer cais gan y perchennog cofrestredig blaenorol i adennill unrhyw arian a dderbyniwyd fel rhan o'r gwerthiant.

ARGYMHELLIAD

Mae angen sefydlu amserlen o 90 diwrnod ar y mwyaf ar gyfer cyflwyno ac ystyried unrhyw geisiadau am berchenogaeth ddilys.

Mae angen ystyried pennu diwrnod terfynol ar gyfer cyflwyno unrhyw gais am berchnogaeth ddilys, ac ar gyfer dychwelyd enillion o unrhyw werthiant i'r perchennog gwreiddiol.

Mewn ymdrech i ddiogelu'r rhai sydd â'r grym i ddefnyddio'r Ddeddf i waredu ceffylau drwy'r sianeli priodol, dylid cyflwyno terfyn amser o 90 diwrnod ar ôl y diwrnod perthnasol, gan nodi na fydd unrhyw gais am berchenogaeth yn cael ei ystyried ar ôl y dyddiad hwn.

Er y deellir na fyddai angen cadw ceffyl am y cyfnod llawn o 90 diwrnod, gallai perchennog hawlio unrhyw arian sy'n deillio o werthiant ceffyl yn ystod y cyfnod hwn, os oes modd profi pwy yw'r perchennog.

Nid yw'r sefyllfa y mae'r argymhelliad hwn yn ceisio ei lliniaru yn berthnasol gan fod y rhai sydd wedi'u grymuso gan y Ddeddf yn defnyddio llwybrau gwaredu sy'n arwain at gostau ychwanegol iddynt eu hunain, fel ewthanasia neu gyflwyno rhodd i elusen. Pe bai'r Ddeddf ar gael i sylfaen defnyddwyr ehangach, gyda rhai'n chwilio am lwybrau gwaredu gwahanol, gall nifer yr hawliadau o'r fath gynyddu.

## 11. YSTYRIAETHAU ERAILL YN YMWNEUD Â CHYFLWYNO'R DDEDDF

***Dyrannu adnoddau gan adrannau:***

Nid yw'r un adran yn gyfrifol am fynd i'r afael â phori anghyfreithlon, ceffylau'n crwydro a cheffylau'n cael eu gadael ym mhob awdurdod lleol. Ym marn yr RSPCA, gall y dull ansafonol hwn fod yn ffactor sy'n cyfrannu at nifer y galwadau y mae'r RSPCA yn eu derbyn yn ymwneud â'r mater hwn. Er bod yr RSPCA yn ystyried ac yn ymchwilio i achosion o adael ceffylau lle mae lles ceffyl yn berthnasol, mewn achosion nad ydynt yn ymwneud â lles, y perchennog tir neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol.

***Methu bodloni gofynion statudol y Ddeddf:***

Mae'r Ddeddf yn cynnwys nifer o fesurau rhagnodol statudol sydd angen eu dilyn neu eu gweithredu er mwyn sicrhau bod pob achos o ymafael mewn ceffylau yn gyfreithlon ac yn cydymffurfio â thelerau'r Ddeddf. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys gosod hysbysiadau ar y safle o fewn 24 awr, hysbysu swyddog yr heddlu am y broses o ymafael mewn ceffyl o fewn 24 awr, a rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r rhai sy'n honni bod yn berchennog y ceffyl adeg ymafael yn y ceffyl neu o fewn 7 diwrnod wedyn.

Mae'r dystiolaeth a ddaeth i law'r adolygiad hwn yn dangos nad yw gofynion y Ddeddf wedi'u bodloni bob tro, ac nad yw gohebiaeth ysgrifenedig wedi'i chyflwyno yn unol â'r amserlen. Mewn o leiaf un achos o berchennog yn cysylltu ag awdurdod lleol dros y ffôn, mae'r dystiolaeth yn dangos bod yr awdurdod lleol wedi methu rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r perchennog dan sylw yn nodi telerau'r broses ymafael ac unrhyw gostau a ysgwyddwyd.

> ARGYMHELLIAD
>
> Mae angen sefydlu system rheoli digwyddiadau effeithiol er mwyn sicrhau cysondeb a chydymffurfiaeth ymysg pawb sy'n defnyddio'r Ddeddf.

Er y deellir bod awdurdodau lleol yn gwneud popeth posibl i sicrhau eu bod cydymffurfio â gofyniad statudol y Ddeddf, byddai system rheoli digwyddiadau effeithiol yn helpu i sicrhau cysondeb a chydymffurfiaeth wrth gyflwyno'r Ddeddf.

Dylid cyflwyno'r argymhelliad er mwyn mynd i'r afael â sefyllfaoedd fel yr un a ddisgrifir yn Astudiaeth Achos G, pan fethodd awdurdod lleol â chyflawni ei ddyletswydd i osod hysbysiad ymafael o fewn 24 awr i gwblhau'r gwaith ymafael.

Yn ogystal, os yw corff wedi methu cyflawni ei ddyletswydd i gyflwyno Deddf yn gywir, dylid ystyried cyfreithlondeb y broses ymafael, y mecanweithiau gwaredu sy'n cael eu defnyddio, a'r holl gostau cysylltiedig.

Deellir na fyddai system rheoli digwyddiadau yn unig yn lleihau’r risg o gorff sydd wedi’i rymuso yn bodloni gofynion y Ddeddf. Fodd bynnag, byddai’r system arfaethedig yn adnodd addysgiadol sy’n cynnig y cam nesaf i’r rhai sy’n defnyddio’r Ddeddf.

# 12. ADOLYGU'R CYNLLUN GWEITHREDU

Ym mis Mawrth 2013 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar y materion sy'n gysylltiedig â phori anghyfreithlon, ceffylau'n crwydro a cheffylau'n cael eu gadael. Yn dilyn yr ymgynghoriad, lluniwyd Cynllun Gweithredu a oedd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Llywodraeth Cymru[19]. Datblygwyd y Cynllun Gweithredu er mwyn casglu syniadau'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad a rhoi llawer o'r syniadau hyn ar waith ochr yn ochr â'r Ddeddf.

Derbyniodd y Cynllun Gweithredu 21 o awgrymiadau, a derbyniodd 25 awgrym arall yn rhannol, fel y'u cyflwynwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi y byddai'r 46 o awgrymiadau'n cael eu dosbarthu o dan 3 chategori:

- Amcan tymor byr: i'w gwblhau erbyn mis Mawrth 2014
- Amcan tymor canolig: i'w gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2014
- Amcan tymor hir: i'w gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2015

Mae'r ystadegau ar gyfer mesur llwyddiant i'w gweld yn Nhabl III isod:

| | Amcanion a nodwyd | Dim angen gweithredu | Cyflawnwyd yn unol â'r amserlen | Cyflawnwyd y tu allan i'r amserlen | Yn parhau | Heb gyflawni'r amcan |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tymor Byr** | 13 | 0 | 8 | 0 | 5 | 0 |
| **Tymor Canolig** | 25 | 5 | 0 | 1 | 4 | 15 |
| **Hirdymor** | 8 | 2 | 0 | 0 | 2 | 4 |
| **Cyfansymiau** | 46 | 7 | 8 | 1 | 11 | 19 |

**Tabl III:** Trosolwg o ganlyniadau'n ymwneud ag amcanion y Cynllun Gweithredu [19].

Roedd 7 o'r amcanion tymor canolig yn ymwneud ag adnabod ceffylau. Mae'r Llywodraeth wedi ymateb trwy ddweud y bydd yn ystyried y 7 amcan hyn, a 4 amcan arall yn y Cynllun Gweithredu, fel rhan o unrhyw broses ymgynghori ar reoliadau adnabod ceffylau. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan y bydd Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009 yn cael eu diweddaru yn 2017, ac y bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn dechrau yn 2017.

Adeg cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu, y dyddiad arfaethedig ar gyfer cyhoeddi Rheoliad y CE wedi'i ddiweddaru oedd 2014, fel y'i nodir yn y Cynllun Gweithredu. Cyhoeddwyd y rheoliad y mae'r Cynllun Gweithredu yn cyfeirio ato yn 2015, ar ffurf Rheoliad y CE 2015/262.

[19] Gadael Ceffylau a Merlod a Phori Anghyfreithlon: Cynllun Gweithredu http://gov.wales/docs/drah/publications/131014-control-horses-bill-action-plan-en.pdf

Mae cyfanswm o 10 amcan yn cyfeirio at y Cynllun Cyfathrebu, y cynigiwyd ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth. Rhennir yr amcanion hyn yn 4 amcan tymor byr, 6 amcan tymor canolig a 3 amcan hirdymor.

Mewn llythyr dyddiedig 15 Medi 2015 gan Rebecca Evans AC, y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, at Alun Ffred Jones AC, Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, mae Ms Evans yn datgan nad oedd y Cynllun Cyfathrebu arfaethedig wedi'i rhyddhau i'r cyhoedd. Mae'n nodi bod y Cynllun Cyfathrebu yn ymwneud ag adnabod ceffylau, addysg a gwella cydymffurfiaeth â'r rheoliadau arfaethedig, ac er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau, dylai'r Cynllun Cyfathrebu gael ei gyhoeddi'r un pryd â'r rheoliadau adnabod ceffylau newydd yn 2016.

Mae'r bwriad arfaethedig i gyhoeddi'r rheoliadau yn 2016 wedi'i ohirio, ac mae Llywodraeth Cymru wedi datgan y bydd y broses ymgynghori yn dechrau yn 2017.

Nodwyd bod 6 phwynt gweithredu yn ymwneud â bridio a pherchen ar geffylau, ac roedd 5 o'r rhain yn amcanion tymor canolig, ac un yn amcan tymor byr.

Roedd un o'r amcanion tymor canolig wedi'i nodi'n anghywir, gan nad oedd angen i Lywodraeth Cymru weithredu. Mae'r 4 amcan tymor canolig arall yn ymwneud â dwy set benodol o nodiadau cyfarwyddyd a oedd i'w rhyddhau gan Lywodraeth Cymru. Nid yw'n ymddangos bod y nodiadau cyfarwyddyd hyn wedi'u rhyddhau i'r cyhoedd.

Mae'r amcan tymor byr yn ymwneud â bridio a pherchen ar geffylau wedi'i gyflawni'n llwyddiannus drwy ryddhau'r nodiadau cyfarwyddyd a oedd yn ategu'r Ddeddf.

ARGYMHELLIAD

Dylid adolygu'r Cynllun Gweithredu, gan arfarnu amcanion a nodwyd o'r blaen er mwyn ystyried eu perthnasedd yn yr amgylchedd presennol. Os penderfynir bod camau gweithredu yn ymarferol o hyd, dylid sefydlu amserlenni wedi'u diweddaru ar gyfer eu cyflawni.

Oherwydd oedi i'r broses o gyflwyno a mabwysiadu rheoliadau adnabod ceffylau wedi'u diweddaru yng Nghymru, deellir nad yw nifer o'r amcanion a bennwyd ynghynt wedi'u cyflawni eto. Gan fod y rheoliadau newydd i fod i gael eu cyflwyno ledled Cymru cyn diwedd 2017, dylai bod modd cyflawni'r amcanion a nodwyd ynghynt.

# 13. ASTUDIAETHAU ACHOS

## 13.1 DEFNYDDIO'R DDEDDF YN LLWYDDIANNUS

### *Astudiaeth Achos A: Cynghorau Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Chaerffili: Comin Manmoel*

Cydweithiodd Cynghorau Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Chaerffili i symud ceffylau a oedd wedi'u gadael ar Gomin Manmoel yn haf 2014.

Symudwyd 49 ceffyl o'r comin fel rhan o'r gwaith hwn, ac aed ati i ailgartrefu pob un o'r ceffylau mewn llochesi anifeiliaid.

Mae gadael ceffylau ar dir comin wedi bod yn broblem hirdymor yn y De, fel y nododd erthygl [20] ym mhapur newydd y South Wales Argus ar 9 Ebrill 2013.

Yn yr un modd, mae erthygl ym mis Gorffennaf 2014 [21] yn cyfeirio at broblem yn 2013 pan ganfuwyd 40 o geffylau wedi marw ar Gomin Manmoel.

Cynhaliwyd yr ymgyrch ar y cyd ar Gomin Manmoel gan y ddau gyngor, gyda chymorth ac adnoddau ychwanegol y Cominwyr a'r sector elusennol. Gosododd y Cyngor hysbysiadau ymafael ar y comin yn unol â gofynion y Ddeddf, yn gofyn am unrhyw berchnogion i gamu ymlaen i hawlio eu ceffylau. Pennwyd terfyn amser statudol o 7 diwrnod, ac roedd yr hysbysiad yn cynnwys testun safonol yn datgan y byddai'r ceffylau'n cael eu gwaredu, a'u difa o bosibl, os nad oedd modd ailgartrefu'r ceffylau.

Fel mae adroddiad ym mhapur newydd y Gazette [22] yn ei ddangos, cynhaliwyd gwrthdystiad cyhoeddus yn erbyn ymafael yn y ceffylau ar y comin. Nodwyd bod y Prosiect Achub ac Ailgartrefu Merlod Cymru wedi casglu dros 350 o lofnodion gan unigolion a oedd yn fodlon ailgartrefu'r ceffylau a oedd wedi'u gadael.

Yn ôl protocol y tîm Safonau Masnach, mae angen defnyddio sefydliadau i ailgartrefu ceffylau, yn hytrach na'u hailgartrefu yn uniongyrchol gydag unigolion, er mwyn osgoi gwaethygu'r broblem wreiddiol. Mae'r tîm yn datgan bod defnyddio sefydliad profiadol i ailgartrefu ceffylau yn sicrhau eu bod yn derbyn y gofal sy'n berthnasol i'w cyflwr.

---

[20] Behind The Headlines: Charities step in to aid South Wales' wild horses
http://www.southwalesargus.co.uk/news/10342620.BEHIND_THE_HEADLINES__Charities_step_in_to_aid_South_Wales__wild_horses/
[21] Starving, freezing, and dying - but now the fate of horses on Manmoel Common takes a turn for the better
http://www.walesonline.co.uk/news/local-news/starving-freezing-dying---now-7355161
[22] Protest staged on Manmoel Common against seizure of around 50 horses
http://www.walesonline.co.uk/news/local-news/protest-staged-manmoel-common-against-7396283

Gan fod mwy o bobl yn ymwybodol o'r sefyllfa ar Gomin Manmoel, gofynnwyd i nifer o sefydliadau helpu i ailgartrefu'r ceffylau, a derbyniodd un ohonynt gyfanswm o 39 o geffylau.

Yn ôl Safonau Masnach, mae'r gwersi canlynol wedi'u dysgu o'r broses a gwblhawyd ar Gomin Manmoel:

- **Ymafael mewn ceffylau ar y safle**
  Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol nodi'r ceffylau penodol yn yr hysbysiad ymafael. Ar ddiwrnod cyhoeddi'r hysbysiad, cafodd 49 o geffylau eu nodi, eu disgrifio a'u gadael ar y safle. Ar ôl y cyfnod statudol 7 diwrnod, adeg gwaredu'r ceffylau, gwelwyd bod un gaseg wedi geni ebol, a bod ceffylau eraill wedi'u casglu o'r comin. Gan fod nifer y ceffylau yn gallu amrywio mewn ardal ar ôl cyflwyno hysbysiad ymafael, dywedodd Safonau Masnach y byddai'n ceisio ymafael mewn ceffylau a'u gwaredu mewn ymgyrch ar y cyd pe bai sefyllfa newydd yn codi, yn hytrach na gadael ceffylau ar y safle yn ystod cyfnod yr hysbysiad, fel y digwyddodd yn yr achos hwn.

- **Llwybr gwaredu sefydledig**
  Cyn rhoi unrhyw gamau gweithredu eraill ar waith, mae Safonau Masnach wedi datgan y byddai angen sefydlu llwybr gwaredu clir. Mae'r posibilrwydd o ddifa ceffylau sydd wedi'u gadael yn bwnc emosiynol iawn, ac oherwydd ymateb y cyhoedd i'r bygythiad ymddangosiadol i'r ceffylau ar y comin, byddai unrhyw weithgarwch yn y dyfodol yn ceisio trefnu bod ceffylau'n cael eu hailgartrefu cyn ymafael ynddynt.

- **Cydweithio yw'r allwedd**
  Er bod y gwaith o ymafael yn y ceffylau wedi'i ariannu ar y cyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Llywodraeth Cymru, mae'n amlwg na fyddai'r ymgyrch wedi llwyddo heb gydweithredu rhwng y rhanddeiliaid, gan gynnwys y Cominwyr a'r sector elusennol.

Ar ôl gwaredu'r ceffylau a oedd wedi'u gadael ar y comin yn 2014, mae Safonau Masnach Caerffili yn deall bod y mater hwn dan reolaeth yn yr ardal hon bellach.

Ar ôl gwaredu'r ceffylau digroeso, erbyn hyn mae'n hawdd i'r Cominwyr adnabod unrhyw geffylau sydd newydd eu gadael ar y comin. Os oes modd nodi a dod o hyd i'r perchnogion, mae'r ceffylau'n cael eu dychwelyd atynt yn ddi-oed. Os nad oes perchennog yn camu ymlaen, mae'r ceffylau'n cael eu gwaredu yn unol â pholisi'r Cominwyr.

---

### *Astudiaeth Achos B: Bro Morgannwg*

Cyn cyflwyno'r Ddeddf, cafodd nifer o achosion proffil uchel yn ymwneud â phori anghyfreithlon yn y De sylw yn y cyfryngau. Lledaenwyd gwybodaeth am y digwyddiadau hyn drwy nifer o

sianeli, ac roedd yr ymateb cyhoeddus i'r achosion hyn yn un o'r ffactorau allweddol yn arwain at gyflwyno'r Ddeddf.

Cafwyd sawl achos o bori anghyfreithlon ym Mro Morgannwg yn ymwneud â nifer fawr o geffylau'n cael eu gadael gan eu perchnogion ar dir cyhoeddus a phreifat. Mewn un achos o'r fath ym mis Ionawr 2012, cafodd dros 60 o geffylau eu gadael ar dir sy'n rhan o Faes Awyr Caerdydd [23]. Cyn hyn, cafwyd digwyddiad tebyg yn y Wig yn ymwneud â 40 ceffyl arall ym mis Rhagfyr 2011, pan aeth yr awdurdod lleol ati i ymafael yn y ceffylau o dan Ddeddf Anifeiliaid 1971.

Ym mis Ionawr 2012, dangosodd erthygl [24] raddfa fawr y broblem a oedd yn wynebu awdurdodau lleol yn y De. Mae'r erthygl yn cyfeirio at ffigurau a gyhoeddwyd gan Loches Ceffylau Redwings, a honnodd fod un unigolyn yn berchen ar tua 2,700 o geffylau. Yn ôl yr RSPCA, roedd yr unigolyn hwn yn berchen ar tua 2,500 o geffylau yn 2013 [25].

Aeth sawl tasglu ar y cyd ati i geisio mynd i'r afael â'r broblem ehangach a oedd yn wynebu'r awdurdodau lleol ledled y De. Cafwyd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i helpu i fynd i'r afael â'r sefyllfa.

Yn 2013, cydweithiodd sawl asiantaeth i fynd i'r afael â phryderon yn ymwneud ag un perchennog a oedd â dros 2,500 o geffylau o dan ei reolaeth. Yn sgil yr ymgyrch hon, cafodd y perchennog ddedfryd o 8 mis yn y carchar am dorri Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, a Gorchymyn Gwaharddiad Rhag Cadw Anifeiliaid am 5 mlynedd [25].

Yn dilyn adroddiadau bod yr unigolyn wedi torri ei Orchymyn Gwaharddiad Rhag Cadw Anifeiliaid, cynhaliwyd ymchwiliad amlasiantaethol arall tua diwedd 2015. Mae'r pryderon yn ymwneud â thorri'r gorchymyn gwahardd wedi'u nodi mewn erthygl [26] yn y cylchgrawn Horse & Hound ym mis Tachwedd 2016.

O ganlyniad i'r dystiolaeth a gasglwyd gan y tasglu, aed ati i ymafael yn y ceffylau ym mis Awst 2016. Ymafaeliwyd mewn 70 o geffylau o dan y ddeddf, ar y sail eu bod yn pori ar dir preifat heb ganiatâd y perchennog. Cwblhawyd y gwaith gan y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, sef partneriaeth ar y cyd rhwng yr awdurdodau lleol sy'n gwasanaethu Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg.

[23] BBC News: 60 'fly grazing' horses seized near Cardiff Airport
http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-south-east-wales-16633207
[24] Cylchgrawn Horse & Hound: Fly-grazing epidemic hits South Wales
http://www.horseandhound.co.uk/news/fly-grazing-epidemic-hits-south-wales-311954
[25] BBC News: A horse trader has been jailed for eight months and banned from keeping horses for five years after being found guilty of 57 animal welfare and cruelty charges.
http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-23201997
[26] Dealer Tom Price given suspended prison sentence for breaching horse-keeping ban
http://www.horseandhound.co.uk/news/dealer-tom-price-given-suspended-prison-sentence-breaching-horse-keeping-ban-607330

Ar ôl i'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ymafael yn y ceffylau, cyflwynodd tri unigolyn hawliad perchnogaeth i'r awdurdod lleol am 32 o'r 70 o geffylau. Cyflwynwyd prawf o berchnogaeth gan y perchnogion hyn ar gyfer cyfanswm o 19 o geffylau. Yn dilyn cais y perchnogion, darparodd y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir wybodaeth am y costau rhesymol a oedd yn daladwy cyn dychwelyd y ceffylau, yn unol â gofynion y Ddeddf. Aeth un perchennog ati i ddilyn ei gais am ddychwelyd dau o'i 14 ceffyl perthnasol, gan dalu'r costau a oedd yn gysylltiedig ag ymafael yn y ddau geffyl. Ni chafodd unrhyw arian arall ei adennill gan unrhyw unigolyn yn ymwneud ag ymafael yn y ceffylau hyn.

Nododd y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir fod y 68 ceffyl arall wedi'u gwaredu drwy sefydliadau elusennol.

---

### *Astudiaeth Achos C: Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam*

Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam mai ceffylau'n crwydro yw'r broblem fwyaf yn yr ardal. Fodd bynnag, oherwydd y berthynas dda rhwng swyddogion Safonau Masnach a Thîm Troseddu Gwledig â'r cymunedau lleol, fel arfer mae'n bosibl cysylltu â'r perchnogion i waredu ceffylau heb yr angen am ymyrraeth swyddogol.

Mae'r Cyngor yn cadw cofrestr o'r holl geffylau yr ymafaeliwyd ynddynt o dan y Ddeddf. Yn ôl y gofrestr hon, ymafaeliwyd mewn tri cheffyl ar 7 Mai 2014. Nododd y Cyngor a'r Tîm Troseddu Gwledig fod y gwaith hwn yn cael ei ystyried yn gynsail gan y cymunedau lleol, ac yn arwydd clir o'r bwriad i weithredu yn erbyn y rhai sy'n pori ceffylau'n anghyfreithlon.

Ar ôl y broses o ymafael yn y ceffylau hyn, dywedodd swyddogion Safonau Masnach y Cyngor fod perthynas waith wedi'i sefydlu ag aelod o'r gymuned leol, a bod yr unigolyn hwn bellach yn allweddol i sicrhau bod perchnogion neu geidwaid yn gwaredu unrhyw geffylau sy'n achosi problemau. Mewn achosion lle'r oedd y perchnogion hyn wedi gwaredu eu ceffylau, ni chofnodwyd y digwyddiadau hyn yn y gofrestr, gan nad oedd angen unrhyw gyfraniad arall gan swyddogion.

Yn ôl y swyddogion Safonau Masnach, bu farw'r unigolyn cyswllt yn y gymuned tua diwedd 2016. Heb unrhyw berthynas waith debyg yn y gymuned, nid yw'r Cyngor wedi llwyddo i olrhain perchnogion neu geidwaid posibl mewn achosion o geffylau'n crwydro yn 2017. O ganlyniad, ymafaeliwyd mewn dau geffyl hyd yn hyn eleni, ac mae'r ddau wedi'u hawlio gan y perchennog erbyn hyn.

Mae'n amlwg bod cyflwyno'r Ddeddf yn 2014, a'r bygythiad o weithredu yn erbyn perchnogion ceffylau, ynghyd â'r berthynas waith agos rhwng rhanddeiliaid, wedi lleihau nifer yr achosion o bori anghyfreithlon a gofnodwyd yn yr awdurdod lleol hwn.

---

## 13.2 ACHOSION LLE Y GELLID BOD WEDI DEFNYDDIO'R DDEDDF

### *Astudiaeth Achos D: Cyngor Sir Penfro - Ionawr 2016*

Mae perchennog tir yn Sir Benfro yn cadw eiddo sy'n ffinio â fferm ar ddwy ochr. Mae'r fferm wedi'i lesio i denant hirdymor, y credir ei fod yn bridio ceffylau. Amcangyfrifir bod y tenant hwn yn cadw rhwng 70 ac 80 o geffylau ar y fferm ar unrhyw adeg.

Yn ôl y perchennog tir, wrth i'r cyflenwad porfa leihau yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror bob blwyddyn, mae'r ceffylau'n chwilio am borfa arall, gan grwydro drwy'r gwrychoedd a'r llinellau ffens i eiddo'r perchennog tir. Bob tro mae hyn wedi digwydd, mae'r perchennog tir wedi gofyn i'r tenant ddod i gasglu'r ceffylau yn ddi-oed, ac mae'r tenant wedi cydymffurfio â'r cais.

Hyd yn hyn, nid yw'r perchennog tir erioed wedi ceisio adennill y costau sy'n deillio o ddifrod i'r ffensys neu i'r cnawd lle mae'r ceffylau'n pori, sy'n cael ei niweidio ymhellach wedyn wrth i gerbyd yrru drosto mewn ymgais i gasglu'r ceffylau.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r perchennog tir wedi gwella lefel y ffensio ar hyd y ffin er mwyn ceisio atal y ceffylau rhag crwydro o'r fferm i'w eiddo bob blwyddyn. Hefyd, mae'r perchennog tir wedi penderfynu diogelu pob cae drwy osod gatiau, a chloeon clwt lle bo hynny'n briodol.

Ym mis Ionawr 2016, crwydrodd ceffylau o'r fferm i'r briffordd gyhoeddus, a bu'n rhaid galw'r heddlu i'r digwyddiad.

Yn ôl y perchennog tir, gan fod y caeau wedi'u diogelu a bod angen i'r heddlu ddiogelu'r cyhoedd, nid oedd gan yr heddlu unrhyw ddewis ond gosod y ceffylau yn y cau agosaf. Roedd y cae hwn yn eiddo i'r perchennog tir hefyd.

Cysylltodd y perchennog tir â'r Cyngor lleol i ofyn iddo ymafael yn y ceffylau a'u gwaredu o'i dir, ond cafodd wybod nad oedd gan Gyngor Sir Penfro unrhyw ddyletswydd i weithredu, ac oherwydd diffyg adnoddau a chyllid, nad oedd yn gorfodi'r Ddeddf ar dir preifat. Awgrymodd y Cyngor ddulliau gweithredu amgen, gan gynnwys ymafael mewn anifeiliaid sy'n crwydro, yn unol â Deddf Anifeiliaid 1971.

Cysylltodd cyfreithiwr y perchennog tir â'r heddlu i'w hysbysu y byddai'n ceisio adennill iawndal gan yr heddlu am y difrod a achoswyd gan dorri mesurau bioddiogelwch.

Ar ôl y cam gweithredu hwn, cysylltodd yr heddlu â pherchennog y ceffylau, a gasglodd ei geffylau yn fuan wedyn.

### *Astudiaeth Achos E: Cyngor Dinas Caerdydd - Rover Way a Shirenewton, Caerdydd*

Ym mis Mawrth 2017, dywedodd Warden Ceffylau'r awdurdod lleol hwn fod tua 33 o geffylau yn pori'n anghyfreithlon yn y lleoliadau y cyfeirir atynt uchod.

Er bod y ffigurau'n amrywio o ddydd i ddydd, dyma amcangyfrifon y Warden Ceffylau:

- Rover Way: mae 15 ceffyl wedi'u rhwymo ac yn pori'n anghyfreithlon ar dir agored.
- Shirenewton: mae ceffyl 8 wedi'u rhwymo ac yn pori'n anghyfreithlon ar dir agored.
- Tir Llywodraeth Cymru wrth ymyl Rover Way: credir bod 10 ceffyl arall yn pori'n anghyfreithlon ar y tir hwn.

Hyd yn hyn, nid yw'r Ddeddf wedi'i defnyddio ac eithrio mewn lleoliadau lle mae'r ceffylau yn fygythiad i ddiogelwch y cyhoedd, er enghraifft lle mae ceffyl wedi'i ddadrwymo ac wedi crwydro i'r briffordd gyhoeddus.

Mae'r Warden Ceffylau wedi cyflawni'r swydd ers mis Mehefin 2015, a dywedodd nad yw wedi ymafael mewn unrhyw geffyl wedi'i rwymo yn y lleoliadau hyn yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r Warden Ceffylau wedi sefydlu perthynas waith dda â'r rhai sy'n gyfrifol am les y ceffylau yn y lleoliadau hyn, ac mae ceidwaid y ceffylau hyn yn gwybod y bydd y Cyngor yn ymafael yn eu ceffylau os oes pryderon yn ymwneud â'u lles, neu os ydynt yn crwydro.

Dylid nodi bod y Warden Ceffylau yn arsylwi'n ofalus ar y ceffylau sydd wedi'u rhwymo yn y lleoliadau hyn, a'i fod yn fodlon bod y ceidwaid yn cydymffurfio â gofynion Deddf Lles Anifeiliaid 2006.

## ***13.3 ACHOS LLE Y DEFNYDDIWYD Y DDEDDF, OND NAD OEDD YN LLWYDDIANNUS OHERWYDD Y DULL GWEITHREDU***

### *Astudiaeth Achos F: Cyngor Sir Caerfyrddin: Ysgol Gymraeg Ffwrnes, Llanelli, mis Mai 2014*

Ar 7 Mai 2014, ymafaeliwyd mewn pump ceffyl a'u symud i iard ddiogel gan eu bod yn peryglu iechyd y cyhoedd. Credwyd bod y ceffylau hyn yn pori'n anghyfreithlon ar ardal oddi mewn i'r ysgol gynradd.

Yn ôl cofrestr yr awdurdod lleol, gosodwyd hysbysiadau yn y man lle'r ymafaeliwyd yn y ceffylau ar y diwrnod yr ymafaeliwyd ynddynt. Nodir hefyd fod copi o'r hysbysiad ymafael wedi'i roi i orsaf yr heddlu yn Llanelli.

Mae'r cofnodion yn dangos bod y pum ceffyl wedi'u casglu o'r ysgol gan gontractwr allanol, a bod y ceffylau wedi'u cadw ar iard y contractwr.

Yn ôl y cofnodion yn ymwneud â'r pum ceffyl, cafodd pob un o'r ceffylau hyn eu dwyn yn uniongyrchol o iard y contractwr, a hysbyswyd yr heddlu. Ymatebodd yr heddlu i'r digwyddiad hwn, ond gan na allai'r contractwr adnabod y rhai a oedd wedi dwyn y ceffylau, ni roddwyd unrhyw gamau pellach ar waith.

Nid oes unrhyw dystiolaeth arall yn y gofrestr yn ymwneud ag olrhain y ceffylau hyn na'r perchennog yn dilyn y digwyddiad hwn.

---

## 13.4 ASTUDIAETHAU ACHOS ATEGOL

### *Astudiaeth Achos G: Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – Maes Chwarae, Pontsticill, 6 Mawrth 2015*

Ar 6 Mawrth 2015, casglwyd un merlyn Shetland o'r lleoliad ym Mhontsticill.

Mae'r hysbysiad a gyflwynwyd yn datgan yn glir mai'r dyddiad gosod yr hysbysiad yn y lleoliad ymafael oedd 9 Mawrth 2015. Mae'r cofnod yng nghofrestr yr awdurdod lleol yn nodi bod yr hysbysiad wedi'i osod ddydd Sul 8 Mawrth.

Ar ôl ymafael yn y ceffyl, cysylltwyd â'r awdurdod lleol gan unigolyn a oedd yn honni bod yn berchennog y ceffyl. Cyflwynwyd bil i'r perchennog am y costau a oedd yn gysylltiedig ag ymafael yn y ceffyl. Dyma'r costau perthnasol:

- Ymafael yn y ceffyl ar 6 Mawrth: £180
- Costau stablau am 5 diwrnod @ £12 y dydd: £60
- Dychwelyd y ceffyl: £100

Felly, cyfanswm y costau i'w hadennill gan y perchennog oedd £340. Talodd y perchennog y swm hwn ar 12 Mawrth 2015, a dychwelwyd y ceffyl ato.

Ar ôl cael y ceffyl yn ôl, cwestiynodd y perchennog y costau a oedd yn gysylltiedig ag ymafael yn y ceffyl, gan gyflwyno apêl i Weinidogion Cymru.

Ym marn Gweinidogion Cymru, nid oedd apêl y perchennog yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf, gan nad oedd wedi'i chyflwyno oddi mewn i'r cyfnod 7 diwrnod statudol ar gyfer cyflwyno apêl.

Mae Erthygl 3 (1) o Ddeddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014 yn datgan:
*Rhaid i awdurdod lleol, o fewn 24 awr i ymafael mewn ceffyl o dan adran 2, osod mewn lle amlwg yn y man yr ymafaeliwyd ynddo, neu gerllaw'r man hwnnw, hysbysiad ysgrifenedig-*

*(a) yn datgan yr ymafaeliwyd yn y ceffyl a'r dyddiad a'r amser yr ymafaeliwyd ynddo, a*
*(b) yn rhoi manylion ynghylch sut y gellir cysylltu â'r awdurdod lleol.*

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad hwn yn dangos bod yr awdurdod lleol wedi methu cydymffurfio'n llawn ag Erthygl 3 (1) o'r Ddeddf.

Roedd yr hysbysiad a osodwyd ar y safle wedi'i gyhoeddi ar 9 Mawrth 2015, y tu allan i'r 24 awr sy'n ofynnol o dan y Ddeddf.

### *Astudiaeth Achos H: Gwaredu drwy Farchnad Bridgwater*

Cyn cyflwyno'r Ddeddf, roedd Cyngor Sir Caerfyrddin yn gweithredu polisi o ymafael mewn ceffylau a oedd yn crwydro ar y briffordd gyhoeddus.

Yn y cyfnod rhwng mis Ionawr 2011 a mis Ebrill 2012, mae'r awdurdod lleol yn credu bod 4 digwyddiad yn ymwneud â 30 o geffylau lle y credid mai'r prynwr yn yr arwerthiant oedd y perchennog gwreiddiol cyn ymafael yn y ceffylau, neu'n un o gymdeithion y perchennog. Aeth yr awdurdod lleol ati i roi microsglodyn a phasbort i bob un o'r ceffylau hyn, a diweddarwyd y cofnodion i nodi mai'r awdurdod lleol oedd y perchennog presennol.

Yn ystod ymgyrch ehangach ym mis Tachwedd 2013 yn ymwneud â thua 200 o geffylau, nodwyd bod gan 17 o'r ceffylau ficrosglodyn a phasbort yn enw Cyngor Sir Caerfyrddin [27]. Dangosodd cofnodion yr awdurdod lleol fod pob un o'r 17 ceffyl wedi'u gwaredu drwy farchnad gyhoeddus a gynhaliwyd yn Bridgwater.

Nodwyd ym mis Tachwedd 2013 nad oedd yr unigolyn a brynodd y ceffylau yn yr arwerthiant wedi cysylltu â'r Swyddfa Cyhoeddi Pasbortau i ddiweddaru'r cofnodion perchnogaeth yn unol â'r cyfnod 30 diwrnod sy'n ofyniad statudol o dan EIWR (2009).

Cysylltwyd â Safonau Masnach Bro Morgannwg i ymchwilio i'r achos hwn o dorri EIWR (2009). Cynhaliwyd yr achos yn Llys y Goron Caerdydd ar 9 Rhagfyr 2013, a dyfarnwyd bod y perchennog yn euog o bob un o'r 17 cyhuddiad yn ymwneud â thorri EIWR (2009).

Cafodd y perchennog ddirwy o £6,375, a bu'n rhaid iddo dalu £8,000 tuag at gostau Safonau Masnach Bro Morgannwg.

Pan glywodd yr awdurdod lleol fod perchnogion posibl yn teithio i Bridgwater i brynu eu ceffylau yn ôl am gyn lleied â £5 yr un, aeth ati i ddiweddaru ei bolisïau mewnol i sicrhau na fyddai unrhyw geffyl yr ymafaeliwyd ynddo yn cael ei waredu drwy farchnad gyhoeddus.

Mewn achosion lle'r oedd unigolion yn gallu prynu ceffylau o farchnad, a bod awdurdod lleol wedi ymafael yn y ceffylau o'r blaen, nododd nifer o randdeiliaid y byddai'r perchennog newydd yn gwybod bod y ceffylau wedi cael archwiliad gan filfeddyg, a bod unrhyw gyflyrau wedi'u trin. Cyfeiriwyd at y broses hon fel "gwiriad iechyd a stablau hurio am ddim ar gyfer ceffylau sy'n pori'n anghyfreithlon", oherwydd y symiau pitw sy'n cael eu talu am geffylau mewn arwerthiant cyhoeddus.

27 Horse Trader Ordered to pay £14000 after failing to update horse passports
http://www.tradingstandardswales.org.uk/news/news-item.cfm/newsid/126